



MENTER TY'N LLAN

Llandwrog



tynllan.cymru

/tynllan

@tynllan

CYNLLUN BUSNES MENTER TY'N LLAN

AWST 2023

Y CYNLLUN BUSNES HWN OEDD SAIL Y CYNIG CYFRANDALIADAU OEDD YN ESTYN GWAHODDIAD I'R GYMUNED A'R CYHOEDD I GYMRYD RHAN YNDDO A CHEFNOGI MENTER TY'N LLAN. FE'I HADOLYGWYD YN AWST 2021 I ADLEWYRCHU LLWYDDIANT YR YMGYRCH A PHRYNIANT YR EIDDO AC ETO YN IONAWR 2022. MAE'R FERSIWN YMA YN ADOLYGIAD LLAWN SY'N ADLEWYRCHU LLWYDDIANT YR YMGYRCH, PRYNIANT YR EIDDO, AIL-AGOR Y DAFARN A CHYMAL CYNTAF YR ADNEWYDDU. MAE EIN HOLL SYLW YN AWR AR GYFLAWNI'R WELEDIGAETH YN EI CHYFANRWYDD.



Tabl Cynnwys

Y Weledigaeth a'r Gwerthoedd.....	4
1. Crynodeb Gweithredol.....	5
1.1 Ein Treftadaeth.....	5
1.2 Ein Hamcan.....	5
1.3 Y Prosiect.....	6
1.4 Llandwrog, Dinas Dinlle a'r Groeslon.....	6
1.5 Pwy Fydd Yn Elwa?.....	7
2. Rhagarweiniad.....	11
2.1 Cefndir.....	11
2.2 Yr Angen am y Prosiect – Treftadaeth.....	12
2.3 Yr Angen Am Y Prosiect Hwn – Cymdeithasol.....	15
2.4 Y Cyd-destun Ehangach.....	17
2.4 Statws y Ddogfen Hon.....	17
3. Ynglŷn â Llandwrog.....	18
3.1 Ystadegau ac Asedau Allweddol.....	18
3.1.1 Poblogaeth.....	18
3.1.2 Cyflogaeth ac Incwm.....	19
3.1.3 Mynediad at Wasanaethau.....	19
3.1.4 Troseddu.....	19
3.1.5 Y Gymraeg.....	19
3.1.6 Iechyd a Lles.....	20
3.1.7 Aelwydydd.....	20
3.1.8 Cyfleusterau ac Asedau.....	20
3.2 Cynllun Cyfeillio Covid-19.....	21
3.3 Ein Hanes a'n Treftadaeth.....	21
3.4 Twristiaeth a'r Sylfaen Cwsmeriaid Posibl.....	22
3.5 Y Gystadleuaeth.....	24
4. Cynnwys y Gymuned a Gweithio mewn Partneriaeth.....	25
4.1 Cynnwys y Gymuned ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid.....	25
4.1.1 Cyfarfodydd Cyhoeddus Zoom.....	25
4.1.2 Holiadur Cymunedol.....	25

4.2	Ennyn Diddordeb Ystod Ehangach o Bobl	26
4.2.2	Y profiad hyd yn hyn	26
4.3	Gwobrau	35
4.4	Gwella mynediad trwy dyfu'r busnes.....	35
5.	Adnewyddu ac Ailfodelu	35
5.1	Cyflwr Cyfredol	35
5.2	Prosiect adfer ac adnewyddu – Cymal 1	35
5.3	Adfer ac adnewyddu i gwrdd ag anghenion.....	36
5.4	Lleihau ein Heffaith ar yr Amgylchedd	37
6.	Costau ac Amserlenni'r Prosiect.....	39
6.1	Costau a Chyllido Cyffredinol y Prosiect.....	39
6.2	Model Cyllido a Gwariant	40
6.3	Amserlen.....	40
7.	Y Cynnig Busnes	42
7.1	Model Busnes	42
7.2	Amseriad a rhagdybiaethau allweddol	42
7.3	Cynnal a Chadw	43
7.4	Staffio.....	44
7.5	Gwirfoddoli.....	44
7.5	Adloniant	45
8.	Marchnata a Hyrwyddo.....	46
8.1	Y Stori hyd yn hyn.....	46
8.1	Cynnyrch, Pris a Phobl.....	46
8.2.3	Hyrwyddo	47
8.2.4	Hysbysebu a Chyfathrebu Rhyngweithiol	47
8.2.5	Hyrwyddo Gwerthiant	48
8.2.6	Cysylltiadau cyhoeddus a chyfryngol	48
8.2.7	Marchnata uniongyrchol.....	48
8.2.8	Profiad y defnyddiwr.....	48
8.2.9	Proses.....	49
8.3	Sicrhau amcanion ein Rhaglen Gweithgaredd a Dehongli.....	49
8.3.1	Diffinio Ein Hamcanion.....	49

8.3.2	Adnabod ein Cynulleidfaoedd Targed	49
9.	Llywodraethu.....	50
9.1	Pwyllgor Rheoli.....	50
9.2	Grwpiau Themstig.....	52
10.	Rheoli Risg.....	52
10.1	Dadansoddiad SWOT.....	52
10.2	Ymateb i'r Risgiau.....	54
10.2.1	Denu Busnes	54
10.2.2	Diffyg arian grant ar gyfer adnewyddu, costau annisgwyl, oedi	54
10.2.3	Cyfranddalwyr am Dynnu'n Ôl.....	55
10.2.4	Nid yw'r Busnes yn Hyfyw	55
10.3	Deddf Diogelu Data 2018	56
11.	Casgliad	56
12.	Rhestr o Atodiadau	56
12.2	Dyfyniadau o lythyrau cefnogaeth	57
	<i>Yn ogystal mae unigedd yn fater real i nifer yn ein cymunedau, mae mentrau cymunedol fel hyn yn helpu i ddenu pobl i ymgysylltu a chyfranogi mewn gweithgareddau amrywiol ac felly byddai canolfan o'r math yma hefyd yn gallu cyfrannu at wella llês emosiynol unigolion.....</i>	58

Y Weledigaeth a'r Gwerthoedd

Ein Prif Nod

Cyfoethogi bywydau unigolion a'r gymuned trwy ddod â phobl at ei gilydd mewn ffordd sy'n dathlu a chynnal ein treftadaeth

Ein Cyfrwng

Prynu, addasu a chynnal tafarn a bwyty Ty'n Llan fel man cyfarfod sy'n eiddo i'r gymuned

Ein Dulliau Gweithredu

- Darparu lleoliad ac adnodd sy'n hyblyg, deniadol a chroesawgar i bob aelod o'r gymuned
- Dathlu ein treftadaeth yn weledol a thrwy'r gweithgareddau rydym yn eu hyrwyddo
- Cymryd camau pendant i ehangu nifer ac ystod y rhai sy'n cymryd rhan
- Darparu bwyd, diod a llety o ansawdd deniadol am bris teg
- Sicrhau bod Ty'n Llan ar gael ac yn hygyrch i ddiwallu anghenion y gymuned
- Creu cyfleoedd i wirfoddoli
- Bod yn gyflogwr teg
- Creu cyfleoedd profiad gwaith a meithrin sgiliau
- Hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg
- Parchu'r amgylchedd
- Gwarchod treftadaeth bensaernïol Ty'n Llan
- Rhedeg busnes effeithlon a chystadleuol

Ein Gwerthoedd

- Croesawgar – *y lle a'i bobl*
- Cynhwysol - *drws agored i bawb yn ddiwahân*
- Gweithgar a thrylwyr – *ym mhopeth a wnawn*
- Diwyd a gonest – *mewn gair a gweithred*
- Teg – *wrth ymwneud â'n gilydd ac â'r byd*

1. Crynodeb Gweithredol

1.1 Ein Treftadaeth

Mae Ty'n Llan yn dafarn a gardd restredig Gradd II o'r 19eg ganrif sydd wedi'i lleoli yng nghanol pentref gwledig Llandwrog, Gwynedd. Saif gyferbyn â'r eglwys hardd a adeiladwyd yn yr arddull gothig sydd hefyd yn nodweddu cymeriad y pentref, ac sydd â chysylltiad sylfaenol â'i datblygiad hanesyddol ac â bywyd ein cymuned wledig. Mae'r adeilad ei hun o werth esthetig, hanesyddol a phensaernïol. Yn ystod y pandemig daethom i sylweddoli ei bwysigrwydd arbennig fel cyfleuster i ddarparu cefnogaeth a gwasanaethau hanfodol i'r gymuned. Cyfleusterau nad oeddem yn eu gwerthfawrogi'n llawn nes iddyn nhw gael eu cymryd oddi arnom gan ei chau yn 2017.

I bobl Llandwrog, felly, mae'r prosiect hwn yn ymwneud â mwy na chadw llechi a cherrig. Ei werth pwysicaf yw ei werth cymdeithasol a chymunedol - ei rôl yn dod â phobl ynghyd a chadw ein diwylliant yn fyw. Mae Ty'n Llan wedi bod yn guriad calon ein cymuned Gymraeg ers cenedlaethau, yn fan lle mae'r Gymraeg yn iaith feunyddiol, gan roi cysylltiad dwfn i ni â'n hanes a'n diwylliant ac ymdeimlad o hunaniaeth sy'n cael ei rhannu gennym.

Mae hon yn wlad sy'n gyfoethog o ran chwedlau a diwylliant byw. Yn yr ardal gyfagos mae yna lu o enwau cymeriadau a lleoedd sydd i'w gweld yn chwedlau canoloesol y Mabinogi. Mae englynion enwog Eben Fardd, yn canmol bwyd a diod y dafarn, yn addurno'r brif wal allanol. Roedd Gerallt Lloyd Owen, un o'r beirdd enwocaf ac uchaf ei barch yng Nghymru, yn byw o fewn tafliad carreg

Llandwrog yw cartref Sain, prif gwmni recordio Cymru, sydd wedi dathlu 50 mlynedd o fodolaeth. Bu cenedlaethau o gerddorion arloesol yn cyfarfod yn Nhy'n Llan i gyfansoddi rhai o'r casgliadau caneuon Gymraeg mwyaf poblogaidd erioed cyn eu recordio yn Stiwdio Sain ychydig bellter i ffwrdd.

Wedi'i leoli o fewn milltir neu ddwy i ddau Safle Treftadaeth y Byd UNESCO – Castell Caernarfon a Thirwedd Llechi Gogledd Cymru, mae Ty'n Llan yn lleoliad delfrydol i archwilio a dysgu am y ddau. Y chwareli, wrth gwrs, oedd un o brif ffynonellau cyfoeth y tîrfeddiannwr a gododd y pentref.

Ac wedyn dyna i chi'r dreftadaeth naturiol. Rydym ar garreg drws Parc Cenedlaethol Eryri, a thafliad carreg i ffwrdd o SoDdGA Y Foryd a Glynllifon. Heb sôn am y rhywogaethau sy'n cael eu gwarchod, yr ystlumod a'r gwenoliaid duon, sy'n rhannu'r adeilad â ni. Y mae eu cadwraeth o reidrwydd wedi llywio trefniadau'r gwaith adnewyddu sydd wedi'i wneud hyd yma.

1.2 Ein Hamcan

Prif nod y Gymdeithas yw gweld Ty'n Llan yn cael ei ddefnyddio i gyfoethogi bywydau unigolion a'r gymuned. Bydd yn gwneud hynny trwy ddod yn fan lle bydd pobl yn dod at ei gilydd i fwynhau cwmni ei gilydd, i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol, i rannu ac ail-ddychmygu

diwylliant hynafol byw ac i ddysgu'n ymwybodol ac yn isymwybodol am y dreftadaeth hanesyddol, diwylliannol a naturiol lleol.

1.3 Y Prosiect

Crewyd Cymdeithas Budd Cymunedol er mwyn prynu a rhedeg tafarn Ty'n Llan. Roedd y dafarn wedi bod ar gau ers dros dair blynedd ac nid oedd man cyfarfod tebyg ar gael. O ganlyniad, bu gostyngiad mewn gweithgarwch cymunedol a rhyngweithio a chollwyd elfen bwysig o'r economi leol. Mewn cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd ar Zoom roedd consensws cryf iawn y byddai prynu ac ailddatblygu Ty'n Llan gan y gymuned yn ysgogi gweithgarwch cymunedol, yn helpu i leihau arwahaniad cymdeithasol, yn gwella lles ac yn cynnig manteision economaidd i'r pentref a'r ardal ehangach.

Lansiwyd y Cynnig Cyfranddaliadau ar Ebrill 30ain 2021 gyda cynnig yn cau ar Fehefin 11eg. Codwyd cyfanswm o £463,700 mewn cyfranddaliadau cymunedol oddiwrth gyfanswm o 1013 o aelodau/buddsoddwyr. Oherwydd hynny nid oedd angen gweithredu addewidion benthyciad preifat a gafwyd yn flaenorol er mwyn gwarantu cais llwyddiannus am yr eiddo. Cwblhawyd pryniant yr eiddo ar 30 Mehefin 2021 am cost cyfanswm o £332,800.

Gweledigaeth y Gymdeithas yw creu canolbwynt cymunedol gwirioneddol a phrysur, lle mae ein treftadaeth yn cael ei dathlu'n agored ac yn naturiol. Bydd y cyfleusterau a'r gwasanaethau rhagorol a ddarperir, y cyflwyniad a'r dehongliad gweladwy o hanes, iaith, diwylliant a'r amgylchedd, ynghyd â'r rhaglen reolaidd o ddigwyddiadau deniadol ac addysgiadol, yn dod â'r nifer fwyaf posibl o grwpiau oedran a diddordeb ynghyd. Bydd ymwelwyr i'r ardal yn cael profiad o amgylchedd diwylliannol a fydd yn synnu ac yn ehangu gorwelion.

Mae cyfleoedd eisoes wedi'u creu ar gyfer gwirfoddoli, gan arwain at well iechyd a chyfranogiad democrataidd, gan gryfhau gwydnwch yn dilyn y pandemig. Bydd y rhain yn parhau i dyfu. Byddwn yn mynd ati'n weithredol i hyrwyddo defnydd a sicrhau mynediad at y Gymraeg, sy'n nodwedd allweddol o fywyd y gymuned; bydd treftadaeth bensaernïol unigryw'r pentref model hwn o'r 19eg ganrif yn cael ei pharchu a'i gwarchod; a defnyddir dull rhagweithiol o ymdrin â phob mater sy'n ymwneud â heriau amgylcheddol.

1.4 Llandwrog, Dinas Dinlle a'r Groeslon

Mae gan bentref Llandwrog, gan gynnwys Dinas Dinlle, boblogaeth o tua 460 ac mae wedi ei leoli yn Ward Groeslon yn etholaeth seneddol Arfon – bum milltir o dref hanesyddol Caernarfon. Yn ward y Groeslon, lle ceir 1707 o drigolion, mae 70% o'r rhai 16-74 oed yn weithgar yn economaidd, ac mae 81% yn siarad Cymraeg. Mae'r Ward o fewn yr 20% uchaf o ardaloedd yng Nghymru lle ceir diffyg mynediad at wasanaethau. Yn Llandwrog ei hun nid oes siopau na gwasanaethau cymunedol ac mae'n rhaid i 35% o bobl mewn gwaith deithio mwy na 10km i gyrraedd eu man cyflogaeth. Anaml y ceir trafndiaeth gyhoeddus i Gaernarfon ac oddi yno, yn enwedig fin nos. Mae mentrau diweddar

yn Llandwrog yn sgil y pandemig wedi dod ag ysbryd cymunedol cryf i'r fei ynghyd â pharodrwydd i helpu eraill.

Mae hen bentref Llandwrog yn drawiadol yn bensaernïol ac yn dyddio o'r 1830au ac mae cymeriad Gothig Bictiwresg amlwg i'r adeiladau. Arferai Ty'n Llan fod yn rhan o Ystad Glynllifon, a saif yr adeilad, sy'n sylweddol ei faint, yng nghanol y pentref ac mae iddo arddull glasurol syml. Yn amgylchynu'r hen bentref ceir nifer o ddatblygiadau tai amrywiol a ddatblygwyd yn raddol o'r 1950au ymlaen, gan ddarparu cymysgedd ardderchog o grwpiau oedran sydd wedi helpu i gynnal ysgol y pentref.

1.5 Pwy Fydd Yn Elwa?

Bydd prynu, addasu a chynnal tafarn a bwyty Ty'n Llan fel canolbwynt sy'n eiddo i'r gymuned yn gwasanaethu'n bennaf anghenion trigolion Llandwrog a'r cyffiniau. Ond bydd ennill enw da am ansawdd, lletygarwch ac arlwy ddiwylliannol unigryw yn ei wneud yn gyrchfan i drigolion Arfon, Dwyfor a thu hwnt ac i'r rhai sy'n ymweld â'r ardal ar wyliau. Mae wedi'i leoli'n berffaith i wasanaethu marchnad dwristiaeth sy'n canolbwyntio ar atyniadau cyfarwydd Eryri. Nid y lleiaf o'r rhain yw'r traeth milltir o hyd hynod boblogaidd milltir yn Ninas Dinlle. Mae beicio a cherdded eisoes yn cael eu hyrwyddo'n gryf yn yr ardal tra bod ei agosrwydd at dref hanesyddol Caernarfon, ac at Barc Cenedlaethol Eryri a Phen Llŷn yn gwneud y pentref yn lle naturiol i aros ynddo. Nid oes llawer o gystadleuaeth uniongyrchol, heb unrhyw dafarn bentref gyffelyb gyda bwyd ac ystafelloedd o fewn 3 milltir. Mae mwy na hanner y 1013 o aelodau / cyfranddalwyr yn byw y tu allan i Wynedd a gellir disgwyl y byddant yn dymuno ymweld yn aml unwaith y bydd y prosiect wedi ei gwblhau.

Bydd y rhestr helaeth o Bartneriaid y byddwn yn gweithio gyda nhw yn galluogi llawer o fanteision cymdeithasol a diwylliannol y Cynllun i fod ar gael i'r rhai sy'n byw yn ardal ehangach Dyffryn Nantlle ac Arfon.

Mae stori a llwyddiant ein menter eisoes wedi ysbrydoli eraill i wneud yr un peth a byddwn yn rhannu ein profiad er budd cymunedau eraill, yn enwedig gyda'r rhai sy'n ymwneud â chynnal a hyrwyddo'r Gymraeg.

1.6 Cynnwys y Gymuned

Yn ogystal â'r Pwyllgor Rheoli etholedig o 15, bu mwy nag 80 o wirfoddolwyr yn cymryd rhan weithredol mewn ymdrechion ymarferol i ganiatáu i'r dafarn ailagor ym mis Rhagfyr 2021. Roedd hyn i fod ar sail dros dro, mewn ymateb i'r galw, tra'n aros i'r cynlluniau llawn gael eu cwblhau. Ers hynny mae 50 o wirfoddolwyr yn parhau i ddarparu cymorth o wythnos i wythnos yn amrywio o drefnu digwyddiadau i beintio ac o arddio ac atgyweirio i farchnata. Mae 10 grŵp / cymdeithas eisoes yn cyfarfod yn rheolaidd ar y safle. Derbyniwyd llythyrau o gefnogaeth oddi wrth ystod eang

o gymdeithasau lleol, busnesau ac unigolion blaenllaw. Rhagwelir cytundebau partneriaeth ffurfiol gyda sefydliadau allanol pan fydd y cyfleusterau llawn ar gael.

Mae'r Gymdeithas yn rhoi pwyslais ar ddatblygu sgiliau, hyfforddiant a phrofiad gwaith ac ar weithio gydag asiantaethau lleol sy'n weithredol yn y meysydd hyn i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd ar gyfer buddion o'r fath.

1.7 Adnewyddu ac Ailfodelu

Roedd angen gwaith helaeth i gyflwyno'r adeilad presennol mewn cyflwr derbyniol. Cafwyd arian grant o dair ffynhonnell i ganiatau gwneud Cam 1 o'r gwaith adnewyddu rhwng Mehefin 2022 ac Ebrill 2023. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys ail-doi, ail-bwyntio'r waliau, a stripio ac ail-baentio ffenestri, ynghyd â gwaith paratoi ar y llawr cyntaf. O ganlyniad mae'r strwythur bellach yn gallu gwrthsefyll y tywydd am y tymor hir. Uchelgais y Gymdeithas, fodd bynnag, yw ailfodelu'r adeilad, gan ddefnyddio sgiliau pensaer lleol sy'n arbenigo mewn gwaith treftadaeth a chadwraeth, i ddarparu'r canlynol:

- Adnewyddu ac ailfodelu'r tu mewn yn llwyr, er mwyn gwneud y defnydd mwyaf cynhyrchiol o'r gofod
- Estyniad yn y cefn gyda ffenestri'n edrych i'r de tuag at yr Eifl, i'w defnyddio'n bennaf ar gyfer digwyddiadau ac fel ardal fwyta a chaffi
- Pum ystafell wely *en-suite* ar y llawr cyntaf
- Ystafell amlbwrpas lai fydd ar gael i'w llogi am bris rhesymol gan gymdeithasau a digwyddiadau preifat
- Gardd gwrw ddeniadol sy'n croesawu teuluoedd
- Ardal barcio newydd wedi ei hailgyflunio gyda mannau parcio anabl a phwyntiau gwefru cerbydau a beiciau trydan
- Ynni ecogyfeillgar a chost-effeithiol, trwy baneli solar a gwresogi ffynhonnell daear

Mae'r Gymdeithas wedi mabwysiadu ac yn monitro côd ecolegol a pholisi amgylcheddol, a bydd y gwaith adnewyddu yn waith carbon sero net a fydd yn defnyddio methodoleg adrodd ryngwladol gydnabyddedig.

Cyflwynwyd dau gynllun adnewyddu gwahanol i sylw'r gymuned a'r aelodau. Trafodwyd y sylwadau a dderbyniwyd a'u trosglwyddo i'r pensaer a ddatblygodd y cynllun oedd yn cael ei ffafrio i lefel RIBA 3. Ar hyn o bryd mae'r rhain yn y broses o gael eu datblygu ymhellach i lefel RIBA 4.

1.8 Mwynhau a Rhannu Ein Treftadaeth

Bydd mynediad i dreftadaeth gyfoes a hanesyddol yr ardal yn cael ei wella'n fwriadol gan raglen fywiog o weithgareddau a chyflwyniad dehongli fydd wedi'i integreiddio'n llawn gyda'r dyluniad

pensaernïol gan wneud defnydd llawn a llawn dychymyg o gyfleusterau'r adeilad ac o allu'r Gymdeithas i gyrraedd cynulleidfa y tu hwnt i derfynau'r pentref. Byddwn yn rhannu ein profiad gyda chymunedau eraill sy'n ceisio sicrhau eu cyfleusterau a'u treftadaeth hwythau. Ar ddiwedd 2022, sicrhawyd grant Cyfnod Datblygu gwerth £161,000 gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol. Mae hyn wedi caniatáu i gynlluniau manwl gael eu paratoi ar gyfer pob agwedd ar gam nesaf y prosiect, fel y gellir gwneud cais llawn i'r Gronfa hon ym mis Awst 2023.

1.9 Costau a Chyllid y Prosiect

Roedd fersiwn wreiddiol y Cynllun Busnes hwn yn sail i'r Cynnig Cyfranddaliadau y gwahoddwyd y gymuned a'r cyhoedd i gymryd rhan ynddo er mwyn cefnogi Menter Ty'n Llan.

Mae chwyddiant costau adeiladu wedi golygu, er gwaethaf llwyddiant i sicrhau £650,000 o gyllid grant a benthyciad, mai dim ond rhan gyntaf hanfodol y prosiect, h.y. y gwaith adnewyddu strwythurol, y gellid ei wneud yn ystod yr amserlen oedd yn ofynnol gan y cyllidwyr grant hynny. Yr amcangyfrif diweddaraf o gost cwblhau'r prosiect llawn yw £2,794,082. Ar hyn o bryd, mae'r gwaith codi arian yn canolbwyntio ar sicrhau llwyddiant y cais llawn am gyllid CDLG. Mae ein cais am £500,000 o gyllid o raglen Gogledd Cymru o'r Gronfa Ffyniant a Rennir wedi bod yn llwyddiannus ac rydym hefyd wedi cyflwyno cais llawn i Gronfa *Pawb a'i Le* y Loteri Genedlaethol am gyllid o £400,000.

Er mwyn darparu cyllid pontio i'n galluogi i lif-ariannu'r rhaglen adeiladu, rydym wedi cael sicrwydd ein bod yn debygol o allu cael benthyciad tymor byr gan CgGC. Fe wnaeth y corff yma gynnig cyllid o'r fath i ni yn ystod Cam 1 (er na chaiff ei ddefnyddio yn y pen draw). Mae ein gallu i fod wedi mynd heibio'r targed o £400,000 a osodwyd gennym ar gyfer arian i'w godi o'r Cynnig Cyfranddaliadau cyntaf yn rhoi hyder i ni fod gennym gefnogaeth gymunedol gref. Rydym felly'n credu y bydd yn bosibl codi arian pellach o werthu cyfranddaliadau cymunedol, neu drwy wahodd benthyciadau cymunedol, maes o law, os bydd angen.

Mae'r cynllun ariannol ar gyfer y busnes yn seiliedig ar greu gwasanaethau a chyfleusterau y bydd angen cyrraedd y targed ariannu er mwyn eu darparu. Mae'r cynllun yn dibynnu ar incwm o werthu bwyd a diod, darparu ystafelloedd gwely a llogi ystafelloedd ar gyfer cyfarfodydd ac achlysuron. Mae trosiant ac elw wedi'u modelu'n fanwl ac yn tynnu ar gymariaethau â sefydliadau tebyg yng Ngogledd Cymru a thu hwnt. Bydd costau staffio yn cael eu rheoli'n dynn tra bod patrwm masnachu clir yn cael ei sefydlu. Agwedd bwysig ar y cynllun yw'r cynnig i benodi Swyddog Treftadaeth Gymunedol i oruchwylio'r gwaith o gyflawni i'r eithaf amcan ehangach y Gymdeithas o gynyddu cyfranogiad, datblygu sgiliau a gwirfoddoli. Y bwriad yw bod yr holl waith adnewyddu ac adeiladu newydd yn digwydd o fewn blwyddyn ariannol 2024/25 a bod y cyfleusterau newydd ar gael i'w defnyddio'n llawn o fis Ebrill 2025. Mae'n rhagweld y bydd colled net o £28,916 yn ystod y cyfnod adeiladu yn tyfu'n elw o £54,954 yn 2025/26 ac yn creu gwarged o £75,935 a £110,283 yn ystod 2026/27 a 2027/28.

1.10 Marchnata

O'r cychwyn cyntaf, mae'r Gymdeithas wedi gallu manteisio ar arbenigedd marchnata proffesiynol sylweddol ymhlith yr aelodau. Defnyddir ystod eang o'r cyfryngau cymdeithasol a thraddodiadol, gan gynnwys rhai y telir amdanynt a rhai a geir am ddim, yn uniongyrchol ac yn rhyngweithiol, a chânt eu hanelu at gynulleidfaedd targed penodol. Bydd hyn yn sicrhau y bydd negeseuon perthnasol a chredadwy mewn perthynas â'r hyn sydd gan Ty'n Llan i'w gynnig yn dod i sylw darpar ddefnyddwyr yn barhaus. Bydd y rhain yn cynnwys trigolion lleol, ymwelwyr a busnesau lleol, gyda'r nod o greu a chadw ymwybyddiaeth ac adeiladu sylfaen cwsmeriaid a fydd yn creu busnes cylchol am flynyddoedd lawer i ddod. Rhoddir pwyslais arbennig ar adnabod y dulliau mwyaf effeithiol o gyrraedd cynulleidfaedd newydd. Mae nwyddau wedi'u cynllunio'n benodol wedi cael eu cynhyrchu i godi arian ac i ledaenu neges 'Ty'n Llan' ymhell ac agos. Mae Strategaeth Cyfathrebu a Marchnata gynhwysfawr wedi cael ei pharatoi.

1.11 Y Gymdeithas Ei Hun

Mae'r gymuned wedi mabwysiadu model Cymdeithas Budd Cymunedol fel yr hyn sy'n cyd-fynd orau â'r ysbryd a roddodd fod i'r fenter. Mabwysiadwyd Rheolau Enghreifftiol a sefydlwyd Pwyllgor Rheoli Cychwynnol ac ynddo bymtheg aelod, wedi'i gefnogi gan bedwar is-bwyllgor sy'n gyfrifol am wahanol feysydd gweithgarwch. Daw rhywun yn aelod drwy brynu unrhyw nifer o gyfranddaliadau £100 ac mewn Cyfarfodydd Cyffredinol mae gan bob aelod un bleidlais. Gwnaed cais llwyddiannus i CThEM am Sicrwydd Ymlaen Llaw ar gyfer y Cynnig Cyfranddaliadau i sicrhau y byddai buddsoddiadau yng Nghyfranddaliadau'r Gymdeithas yn gymwys i gael Rhyddhad Treth Buddsoddiadau Cymdeithasol a manteisiodd dros hanner yr aelodau ar y cyfle hwn.

1.12 Y Camau Nesaf

Mae'r ffocws presennol ar ddefnyddio'r Cyllid Datblygu a ddarperir gan CDLG i gwblhau'r dyluniadau pensaernïol manwl, y costau a'r Cynllun Gweithgaredd a Dehongli sy'n sail i'n cais am Grant Prosiect llawn CDLG, tra ar yr un pryd yn bwrw ymlaen â gwaith sy'n ymwneud â'n ceisiadau am cymorth ariannol arall, gan gynnwys Cynnig newydd i aelodau a chefnogwyr i brynu Siârs. Ein gobaith yw y bydd y gwaith hwn wedi dwyn ffrwyth cyn diwedd 2023, ac y byddwn yn gallu mynd allan i dendro am y gwaith adeiladu. Byddwn wedyn yn dyfarnu'r contract(au) yn gynnar yn 2024 tra'n cadarnhau parhad hirdymor y swyddi a nodir yn y Cynllun. Fel gyda'n Cam 1, bydd yn flaenoriaeth uchel i gadw Ty'n Llan ar agor yn ystod cymaint o'r cyfnod adeiladu â phosibl, er bod y Cynllun Busnes hwn yn rhagdybio y bydd angen cau'r eiddo yn ystod pedwar mis cyntaf 2024. Bydd cegin dros dro yn caniatáu ailagor yn rhannol cyn i'r cyfleusterau newydd ddod ar gael erbyn Nadolig 2024. Bydd archebion ar gyfer llety gwely a brecwast yn cael eu cymryd o fis Ebrill 2025.

2. Rhagarweiniad

2.1 Cefndir

Cafodd tafarn Ty'n Llan¹ ei rhoi ar werth ar y farchnad agored ym mis Chwefror 2021, gyda phris awgrymedig o £350k. Mae'r adeilad hanesyddol hwn ym mhentref Llandwrog yn adeilad rhestredig Gradd II a adeiladwyd yn y 1830au ac mae wedi bod yn wag ers 2017. Hyd ei chau, tafarn annibynnol oedd hon.

Roedd cymuned Llandwrog wedi bod yn bryderus ers peth amser bod y dafarn wedi cau ei drysau a bod cyflwr yr adeilad hanesyddol hwn yng nghanol y pentref yn dirywio. Bu'r dafarn yn rhan ganolog o fywyd y gymuned ers dros 170 o flynyddoedd ac roedd ei chau'n gadael bwlch enfawr: diffyg man cyfarfod cymdeithasol i'r gymuned leol, gostyngiad mewn gweithgarwch cymunedol, gostyngiad mewn gwirfoddoli a rhwydweithio, a cholli swyddi. Roedd llawer o grwpiau cymdeithasol wedi rhoi'r gorau i gyfarfod o ganlyniad i gau'r dafarn.

Ni cheir unrhyw gyfleusterau cymunedol eraill yn y pentref, dim canolfan gymunedol, neuadd na siop ac mae trafndiaeth gyhoeddus yn anfyfych. Roedd y gymuned yn argyhoeddiedig y byddai prynu a datblygu'r adeilad yn ysgogi gweithgarwch cymunedol ac yn helpu i leihau unigedd cymdeithasol; byddai'n gwella lles ac yn dod â buddion economaidd i gymuned Llandwrog a'r cyffiniau.

Ymunodd 64 o aelwydydd mewn cyfarfod cyhoeddus dros Zoom i ddangos eu cefnogaeth i'r prosiect ac wedi hynny llenwyd holiadur gan 203 o aelwydydd. Mewn cyfarfod cyhoeddus arall ar 9 Mawrth 2021, daeth 58 o aelwydydd i gael diweddariad am ein gweithgareddau codi arian, y cynnydd o ran y pryniant ac i drafod canfyddiadau'r holiadur a'r weledigaeth ar gyfer Ty'n Llan.

Mae pandemig Covid-19 wedi golygu fod nifer o bobl yn teimlo'n ynysig ac yn unig; mae ei effaith wedi amlygu pwysigrwydd cyswllt cymdeithasol, cymuned a phobl. Fel cymuned, mae'r ymgyrch i brynu Ty'n Llan wedi creu llawer o frwdfrydedd, ac wedi creu ymdeimlad o falchder a gobraith at y dyfodol.

Er mwyn codi'r arian i brynu'r adeilad sicrhawyd mwy na £350,000 mewn addewidion o fenthyciadau dros dro gan 33 o unigolion o fewn 3 diwrnod i gyflwyno'r apêl; tystiolaeth bellach o'r gefnogaeth ysgubol sydd i'r prosiect hwn. Ar 10 Mawrth 2021 derbyniwyd ein cynnig o £325,000, a dechreuom ar ein taith tuag at gyflawni ein gweledigaeth o ddatblygu Ty'n Llan yn fwy na dim ond tafarn.

Caeodd y Cynnig Cyfranddaliadau ar 11 Mehefin 2021. Erbyn cwblhau'r gofrestr aelodau roedd £463,700 wedi ei fuddsoddi mewn cyfrannau cymunedol £100, neu nifer fwy ohonynt, gan gyfanswm o 1013 o unigolion.

¹ Cai ei galw hefyd yn The Harp Inn. Yn unol â'n gwerthoedd y bwriad yw cadw'r enw lleol, Ty'n Llan
Cynllun Busnes Menter Ty'n Llan
Awst 2023

2.2 Yr Angen am y Prosiect – Treftadaeth

Mae Llandwrog yn rhannu llawer o'i nodweddion â phentrefi ac ardaloedd gwledig eraill. O ran nodweddion eraill, mae'n unigryw. Mae'r bythynnod a'r strwythurau canolog wedi bod yn ganolbwynt i fywyd y gymuned ers cyn cof, gyda chreu'r pentref model gan Stâd Glynllifon – a gynlluniwyd o 1832 ac a gyflawnwyd yn yr 1860au. Mae'r pentref yn dyst byw i'r berthynas rhwng Arglwydd y Faenor leol a'i weithwyr, tenantiaid a phensiynwyr. Fel y mae'n digwydd mae hefyd yn dyst i'w barch tuag at ei wraig Eidalaidd y ceisiodd wneud iddi deimlo'n gartrefol trwy adeiladu'r amgylchedd hardd hwn ar gyfer eu bywyd gyda'i gilydd.

Mae hefyd wedi bod yn bentref hynod Gymraeg erioed ac amcan y Gymdeithas yw y dylai Ty'n Llan fod yn guriad calon byw i ddiwylliant egniïol, agored lle defnyddir y Gymraeg, sef agwedd fwyaf trawiadol treftadaeth y pentref, yn naturiol a lle mae ymgysylltiad dysgwyr a'r rhai nad ydynt yn ei siarad yn cael ei annog a'i ysgogi.

Bydd mynediad i dreftadaeth yr ardal yn cael ei wella drwy ddatblygu rhaglen fywiog o weithgareddau a rhaglen ddehongli sy'n gwneud defnydd llawn a dychmygus o gyfleusterau'r adeilad.

Bydd y rhain yn cynnwys cynlluniau ar gyfer:

Datblygu llwybrau cerdded hunan-dywys

Bydd gwirfoddolwyr a phobl ifanc yn gweithio gyda'i gilydd i greu tri llwybr cerdded hunan-dywys newydd sy'n dechrau ac yn gorffen yn Ty'n Llan. Bydd y rhain yn cael eu dosbarthu fel taflenni print a byddant ar gael ar-lein.

Datblygu llwybr beicio

Bydd gwirfoddolwyr, gyda chefnogaeth Antur Waunfawr, yn datblygu llwybr beicio hunan-dywys i gysylltu Caernarfon, ble lleolir Antur Waunfawr a Beics Antur, gyda Ty'n Llan, gan greu'r cyfle i Ty'n Llan weithredu fel canolbwynt llogi beiciau gyda Beics Antur

Hyfforddiant gwirfoddolwyr i ddatblygu llwybrau tywys

Bydd sesiynau hyfforddi ar gyfer gwirfoddolwyr yn cefnogi datblygiad y llwybrau cerdded hunan-dywys a'r llwybr beicio

Hyfforddiant i wirfoddolwyr i ddarparu teithiau tywys

Bydd hyfforddiant teithiau tywys i wirfoddolwyr yn cefnogi cynnaladwyedd parhaus Grŵp Cerdded Ty'n Llan, ac yn cefnogi darparu teithiau cerdded ar thema treftadaeth yn yr ardal

Grwpiau gwaith gardd gymunedol

Bydd gwirfoddolwyr yn cymryd rhan mewn grwpiau gwaith misol i sefydlu, rheoli a chynnal a chadw gerddi Ty'n Llan, gan gefnogi'r gwirfoddolwyr gardd rheolaidd

Clwb cegin a rhandir

*Cynllun Busnes Menter Ty'n Llan
Awst 2023*

Bydd gwirfoddolwyr yn sefydlu a chynnal rhandir Ty'n Llan yn ystod sesiynau a drefnir bob pythefnos rhwng Ebrill a Medi. Yn ystod misoedd y gaeaf, bydd sesiwn dan do fisol yn darparu cyfleoedd ymgysylltu yn y gegin i helpu i wneud y cysylltiad rhwng cynhyrchu bwyd, y cynnyrch ei hun a pharatoi ar gyfer y plât.

Digwyddiadau Gyrfaoedd Lletygarwch

Bydd dau ddigwyddiad gyrfaoedd blynyddol ar gyfer dysgwyr ffurfiol ar lefel uwchradd yn codi ymwybyddiaeth o letygarwch a chynhyrchu bwyd fel gyrfa ac o lwybrau i mewn iddo.

Profiad Gwaith

Bydd cyfleoedd profiad gwaith 6 wythnos o hyd yn y gegin neu'r bar ar gael i fyfyrwyr lletygarwch ac arlwyo Coleg Glynllifon, ac i bartneriaid GISDA, yn ystod y misoedd allfrig.

Ffilm gynefino hyfforddiant garddio, rhandir a chegin

Bydd Ty'n Llan Ni ac Ysgol Llandwrog yn cynhyrchu ffilm ddigidol fer i ennyn diddordeb gwirfoddolwyr newydd ar gyfer yr ardd, y rhandir a'r gegin ac ar gyfer cyfranogwyr gweithgareddau treftadaeth Ty'n Llan.

Hyfforddiant ar gyfer gwirfoddolwyr gweithgareddau cegin

Bydd hyfforddiant i wirfoddolwyr yn cefnogi'r holl weithgareddau sy'n ymwneud â'r gegin, cynladwyedd clwb cinio Ty'n Llan i rai dros 60 a'r clwb cegin a rhandir.

Gweithdai Ysgrifennu Creadigol Cydweithredol

Bydd y rhai sy'n cymryd rhan mewn gweithdai yn Ty'n Llan yn dysgu sut i gynhyrchu barddoniaeth ac ysgrifennu creadigol arall. Bydd taith ddysgu'r cyfranogwyr a'u gwaith yn cefnogi'r cynnwys dehongli, gan gynnwys arddangosfeydd.

Gweithdai Mabinogion / Llên Llandwrog

Bydd dysgwyr ffurfiol sy'n cymryd rhan mewn gweithdai yn Ty'n Llan yn cynhyrchu deunydd creadigol i ddehongli Ty'n Llan a Llandwrog. Yn ogystal â datblygu sgiliau iaith a hybu hyder, bydd dysgwyr yn deall sut mae rhannau o'r cylch stori yn sylfaen i'r dirwedd, ac yn ysgogi ymdeimlad o gynefin yn lleol.

Gweithdai cyfansoddi caneuon a cherddoriaeth Gymraeg

Bydd pobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithdai yn Ty'n Llan sy'n tynnu ar dreftadaeth gerddorol Ty'n Llan, yn enwedig ei gysylltiadau agos â Recordiau Sain, ac yn cefnogi datblygiad treftadaeth gerddorol 'newydd' trwy ddatblygu gwaith newydd.

Llythyr Arall o Gymru

Bydd disgyblion a staff Ysgol Llandwrog, gyda grŵp ieuenctid Ty'n Llan Ni, yn cymryd rhan mewn cyfres o weithdai drama. Bydd ffilm wedi'i golygu o'r gweithdai a'r perfformiadau yn cael ei chyhoeddi ar Casgliad y Werin Cymru.

Celf arwydd tafarn

Bydd grŵp ieuenctid Ty'n Llan Ni yn arwain ar ddatblygu dyluniad arwydd tafarn 1x ar gyfer tu allan Ty'n Llan.

Hanes llafar

Bydd grŵp o wirfoddolwyr yn hwyluso adrodd straeon a sgysiau rhwng cenedlaethau gydag o leiaf 20 o drigolion hŷn o'r gymuned leol. Bydd y prosiect yn llywio'r dehongliad yn Ty'n Llan, a bydd y recordiadau'n sail i gasgliad a gyhoeddir ar Gasgliad y Werin Cymru.

Adeiladu straeon

Bydd disgyblion Ysgol Llandwrog yn cynnal eu prosiect ymchwil cymunedol pwrpasol eu hunain, gan gyfweild â phobl leol hŷn am straeon yn ymwneud ag adeiladau penodol yn Llandwrog, gan gynnwys Ty'n Llan. Mae hyn yn eu helpu i adeiladu ar eu prosiect tecstilau Eisteddfod 2023.

Tiwnio'r Delyn

Bydd pobl ifanc yn ffilmio ac yn golygu taith gerdded fer o amgylch Llandwrog a thaith het galed o amgylch Ty'n Llan yn ystod y gwaith adeiladu i hyrwyddo'r prosiect. Bydd cyfres ychwanegol o deithiau cerdded yn cael eu cynnig yn ehangach.

Ymchwil dogfennol

Bydd gwirfoddolwyr o Ward Groeslon, gan gynnwys Ffermwyr Ifanc y mae eu teuluoedd wedi bod yn byw yn yr ardal ers cenedlaethau, yn ymchwilio i hanes Ty'n Llan, Llandwrog a'r dirwedd gyfagos i helpu i lywio'r allbynnau dehongli.

Hyfforddiant a datblygiad hanfodol

Bydd aelodau'r Bwrdd, staff a gwirfoddolwyr yn cael amrywiaeth o hyfforddiant sy'n cefnogi'r gwaith o ddarparu'r gweithgareddau a dehongli, drwy hyrwyddo hygyrchedd a chael gwared ar rwystrau i ymgysylltu.

Cynllunio olyniaeth a hyfforddiant

Bydd Menter Ty'n Llan yn gweithio gyda Mantell Gwynedd i ddatblygu gwytnwch ar lefel sefydliadol, gan ddysgu o weithgareddau NLHF a chyflawniad y prosiect, a llywio'r Cynllun Busnes i'r dyfodol.

Croeso i Ty'n Llan

Bydd hyfforddiant dehongli a gwasanaeth cwsmeriaid/croesawu yn cael ei ddarparu i'r holl staff a gwirfoddolwyr sy'n delio â chwsmeriaid.

Rhwydwaith Tafarnau Cymunedol

Bydd Ty'n Llan yn cefnogi, cynnal a hwyluso cyfarfodydd ac yn datblygu a chynnal cyfarfodydd rhwydwaith ar gyfer tafarndai cymunedol eraill yng Ngwynedd a Môn, gan rannu arfer gorau, gwersi a ddysgwyd a chynllunio cydweithio effeithiol.

DEHONGLI

Bydd y dehongli yn tynnu ar gorff o ddeunydd hanesyddol a chyfoes, a hefyd greiriau a chynnyrch yr ardal leol sy'n helpu i adrodd stori'r gymuned. Elfen gref o'r prosiect hwn yw cyd-greu gyda chynulleidfaoedd targed fel rhan o'r rhaglen weithgareddau. Bydd pob un o'r gweithgareddau'n cynhyrchu cynnwys a delweddau newydd i gysylltu cymuned heddiw â'i threftadaeth ddiwylliannol, ac i gyflwyno hyn i ymwelwyr â Thy'n Llan, Llandwrog a'r ardal ehangach.

Bydd y dehongli yn cyflwyno tair thema sylfaenol:

- Yn Ty'n Llan rydych chi'n mynd i mewn i dafarn hanesyddol, sydd bellach yn eiddo i'r gymuned leol
- Gan drin Ty'n Llan fel lens, gallwch edrych drwyddo i archwilio tirwedd amrywiol Gwynedd rhwng môr a mynydd
- Mae Ty'n Llan yn llwyfan lle mae traddodiadau artistig cryf wedi datblygu a chael eu rhannu.

Bydd y themâu hyn yn cael eu cyflwyno trwy ddefnydd dychmygus o ardaloedd mewnol yr eiddo, gan gynnwys y bar, mannau cymunedol ac ystafelloedd gwely; ardaloedd allanol, yn enwedig yr ardd a thu allan yr adeilad; deunydd symudol, megis matiau cwrw, posteri a thafleini gweithgaredd a phamffledi; ac adnoddau digidol fel y wefan, cyfryngau cymdeithasol a dolenni côd QR. Mae Cynllun Gweithgaredd a Dehongli treftadaeth manwl wedi'i lunio gyda chyfraniad cryf gan y gymuned.

2.3 Yr Angen Am Y Prosiect Hwn – Cymdeithasol

Prin yw'r cyfleusterau eraill yn Llandwrog a does dim man cyfarfod i ddod â phobl at ei gilydd. Mae tystiolaeth bod grwpiau cymdeithasol a chymdeithasau wedi dod i ben oherwydd diffyg lle cyfarfod a bod hynny wedi effeithio ar allu'r gymuned i drefnu gweithgareddau, dod â phobl at ei gilydd ac annog grwpiau cymunedol newydd i ffurfio. Mae diffyg lle yn yr ysgol gynradd leol i gynnal gweithgareddau cymunedol gan fod neuadd yr ysgol yn cael ei defnyddio fel ystafell ddsbarth ychwanegol a ffreutur.

Ffurfiwyd Pwyllgor Pentref yn 2018 mewn ymateb i awydd pobl i "ddod â'r gymuned at ei gilydd", ac mae gweithgareddau amrywiol wedi cael eu trefnu (e.e. coeden Nadolig yng nghanol y pentref a digwyddiad i gynnu'r goleuadau, diwrnod amgylcheddol, casglu sbwriel). Roedd y math o

weithgareddau y gellid eu cynnal yn gyfyngedig oherwydd nad oedd yma fan cyfarfod cymdeithasol: roedd pob digwyddiad yj cael ei gynnal yn yr awyr agored ac roeddem yn llwyr ddibynol ar y tywydd.

Mae ardal Llandwrog yn adnabyddus am fod â nifer uwch na'r cyfartaledd (Gwynedd a Chymru) o bobl hŷn yn byw ar eu pennau eu hunain. Mae hyn yn cefnogi'r farn bod angen rhagor o gyfleusterau i gefnogi aelodau'r gymuned, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed ac sydd mewn perygl o gael eu hynysu'n gymdeithasol. Bydd y datblygiad yn sicrhau cyfleuster sy'n diwallu anghenion y gymuned gyfan ac o fudd i unigolion sy'n teimlo'n unig ac yn ynysig yn eu cartrefi, i bobl sydd wedi ymddeol sy'n chwilio am gyfleoedd i gadw'n egniol, i drigolion newydd sy'n chwilio am gyfle i gyfarfod â'u cymdogion ac i ofalwyr nad oes ganddynt unrhyw ffordd arall o gwrdd â phobl.

Mae tafarndai cymunedol wedi bod yn darparu gwasanaethau a gweithgareddau a fu'n achubiaeth i bobl leol oedd mewn angen yn ystod y pandemig. Mae tafarndai cymunedol yn aml iawn yn fwy na dim ond tafarn. Yn anad dim arall maent yn effro i anghenion y gymuned. Y cysylltiad arbennig hwn â'r gymuned yw'r hyn sy'n gwneud tafarndai cymunedol yn asedau mor werthfawr ac unigryw – a'r hyn sydd hefyd yn rhoi mwy o wydnwch ariannol iddynt.

Mae adroddiad gan CAMRA (2016), 'Friends on Tap – The Role of Pubs at the Heart of the Community', yn cyfeirio at effeithiau cadarnhaol tafarndai ar iechyd a lles ac at y ffaith eu bod yn achubiaeth i nifer o aelodau'r gymuned:

“There has been a growing recognition over the past decade that the single most important factor determining health, wellbeing and survival is the size and quality of our personal social networks. The more people you know, and the more often you see them, the better you feel and the healthier you are...”

Pubs allow us to mix and meet a wider range of community members, and hence interact with a greater diversity of social classes and cultures, than would otherwise be the case if our social world is confined to work and home. Being more engaged with your local community and being involved more frequently in conversations with other individuals can have substantial benefits by reducing loneliness, which in turn is likely to have significant health and wellbeing benefits. Happy people and those who are embedded in large, well-integrated social networks are sick less often...

Directly and indirectly, pubs as venues for social communities are likely to yield significant savings on health care budgets. In this context, pubs serve an important hub function, by providing a venue at which people can meet. With the exception of places of worship, few venues in the contemporary world provide an open environment for meeting new people, especially for older age groups. For incomers to a neighbourhood and those whose turn of life has left them socially isolated, becoming a ‘regular’ at a community pub can become a gateway for meeting new friends – and, through this, a lifeline.”

Mae'n bwysicach nag erioed buddsoddi mewn cyfleusterau cymunedol i gynorthwyo a chefnogi pobl yn y cyfnod o adfer yn dilyn y pandemig. Bydd canolfannau cymunedol yn chwarae rhan hollbwysig wrth gefnogi ein hadferiad; mae gwerth lleoliad y mae trigolion yn teimlo eu bod yn 'berchen' arno ar y cyd, ac sy'n sbardun i ymgysylltu eang, yn anfesuradwy. Mae'n ganfyddiad cyffredinol fod canolfannau cymunedol yn arwain at rwydweithiau o wirfoddolwyr brwd, gwell iechyd a lles, rhagor o ymgysylltu democrataidd, a chymunedau sydd â'r gwydnwch i ymdopi ag argyfyngau a allai godi yn y dyfodol.

2.4 Y Cyd-destun Ehangach

Drwy fabwysiadu'r prosiect cymunedol hwn, mae Menter Ty'n Llan yn ymateb i ddeddfwriaeth genedlaethol a blaenoriaethau lleol ym maes cynaliadwyedd a lles.

Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol pobl Cymru. Mae'n ddarn arloesol o ddeddfwriaeth, a gydnabyddir felly gan y Cenhedloedd Unedig. Mae'r Ddeddf yn tynnu sylw at saith nod llesiant a phum ffordd o weithio er mwyn rhoi fframwaith statudol i gyrff cyhoeddus sicrhau bod pob penderfyniad yn cael ei wneud ar y cyd ac mewn modd cynhwysol, gan ystyried anghenion hirdymor y gymuned. Diben y Ddeddf yw sicrhau bod gyrff cyhoeddus nid yn unig yn diwallu anghenion presennol eu cymunedau ond hefyd nad yw penderfyniadau heddiw yn niweidio cenedlaethau'r dyfodol. Y nod yw gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau trigolion.

Gweledigaeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yw helpu pobl i fod yn annibynnol, cysylltu pobl â'u cymunedau a lleihau neu ohirio dibyniaeth pobl ar ymyriadau'r gwasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd. Mae'n pwysleisio bod angen i awdurdodau lleol fod yn arloesol wrth ddarparu gwasanaethau ataliol, gwneud y defnydd gorau o adnoddau, sicrhau gwerth am arian, ac ymgysylltu'n rhagweithiol â chymunedau, y trydydd sector, mentrau cymdeithasol a darparwyr eraill i ddiwallu anghenion cymunedau, a hybu iechyd a lles pobl er mwyn gohirio neu atal yr angen am ofal statudol.

Mae prosiect Menter Ty'n Llan yn cyd-fynd ag amcanion y Deddfau uchod. At hynny, drwy gydol y prosiect hwn bydd Menter Ty'n Llan yn gweithredu'n gyson ag ysbryd y ddeddfwriaeth genedlaethol ar gynaliadwyedd ac yn gweithio gyda Chynllun Llesiant Lleol Gwynedd a Môn i gyflawni ein nodau.

Mae hefyd yn gyfangwbl gyson ag amcanion y Cynllun Economaidd Ymweld Cynladwy a gynhyrchwyd gan Gyngor Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri – 'i greu economi ymweld sy'n dathlu, parchu a gwarchod ein hiaith, diwylliant a threftadaeth; sy'n cynnal a pharchu ein hamgylchedd; ac sy'n sicrhau bod y manteision i gymunedau'n fwy nag unrhyw anfanteision'.

2.4 Statws y Ddogfen Hon

Mae'r cynllun busnes hwn yn cyflwyno ein gweledigaeth ar gyfer Ty'n Llan, yn adrodd ar lwyddiannau hyd yma ac yn amlinellu sut y bwriadwn ddatblygu a rhedeg y fenter, gan sicrhau ei hyfywedd i'r dyfodol a gwneud yn siŵr ei bod yn cyflawni ein cenhadaeth gymdeithasol a threftadaeth. Bydd y cynllun busnes hefyd yn cefnogi'r ceisiadau grant y byddwn yn eu gwneud.

Datblygwyd y ddogfen hon gan Bwyllgor Rheoli ac is-grwpiau Menter Ty'n Llan. Adolygwyd a darparwyd cyngor allanol gan y canlynol:

Sefydliad Plunkett
Canolfan Cydweithredol Cymru
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Minerva Heritage

Cafodd y cynllun busnes gwreiddiol ei fabwysiadu'n ffurfiol gan Bwyllgor Rheoli Menter Ty'n Llan ar 20 Ebrill 2021. Cyhoeddwyd fersiwn adolygedig ar 09 Awst 2021 a chymeradwywyd fersiwn adolygiedig pellach ar 11 Ionawr 2022. Cymeradwywyd y fersiwn diwygiedig yma gan y Pwyllgor Rheoli ar 15 Awst 2023. Bydd yn parhau i esblygu, yn enwedig wrth i gynlluniau pensaernïol ac amcangyfrifon costau gael eu cwblhau a'u mireinio ac wrth i weithgareddau'r Gymdeithas yn ogystal â'r busnes ei hun wella'n sgiliau a'n gallu i gyflenwi canlyniadau sydd o fudd cymdeithasol a'n gwybodaeth am y rhagolygon a'r heriau masnachol.

3. Ynglŷn â Llandwrog

3.1 Ystadegau ac Asedau Allweddol

3.1.1 Poblogaeth

Pentref bychan yn ward y Groeslon yw Llandwrog. Mae gan y pentref ei hun (gan gynnwys Dinas Dinlle) boblogaeth o tua 460 o bobl². Yn ôl Amcangyfrifon Poblogaeth Canol Blwyddyn 2019 y Swyddfa Ystadegau Gwladol mae gan ward y Groeslon 1,707 o drigolion, ac mae bron i chwarter ohonynt dros 65 oed (24%), sy'n uwch na chyfartaledd Cymru, sef 20%.

Mae Cyfrifiad 2011³ yn dangos bod 92% o boblogaeth ward y Groeslon yn byw yn yr un cyfeiriad flwyddyn cyn dyddiad y cyfrifiad⁴. Roedd yr 8% arall wedi symud i'r ardal, ac roedd 6% ohonynt wedi symud o fannau eraill yn y Deyrnas Unedig a 2% ohonynt o ardal y Groeslon. Dengys hefyd fod 92 o bobl wedi symud allan o'r ardal.

² Cofrestr Etholiadol Ionawr 2020

³ Data Cyfrifiad 2011 yw'r data diweddaraf sydd ar gael. Er eu bod bellach wedi dyddio gan ddeng mlynedd, maent yn dal i roi meincnod ddibynadwy o ran ystadegau.

⁴ Data Cyfrifiad 2011 - Ymfudo

3.1.2 Cyflogaeth ac Incwm

Mae nifer y bobl sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith (ynghyd â'r rhai sy'n hawlio Credyd Cynhwysol ac yn ddi-waith) wedi cynyddu o 1.5% ym mis Ionawr 2019 i 5.5% ym mis Awst 2020.⁵

Mae Llandwrog yn Etholaeth Seneddol Arfon, lle mae'r cyflog wythnosol canolrifol⁶ yn £480 o gymharu â £540 yng Nghymru a £580 yn y Deyrnas Unedig.

Yn ôl Cyfrifiad 2011⁷ nid oedd gan 18% o drigolion ward y Groeslon unrhyw gymwysterau ffurfiol. Ar y llaw arall roedd gan 30% o'r boblogaeth radd neu gymhwyster cyfatebol.

O blith y bobl ifanc 16-74 oed sy'n gweithio yn ardal y Groeslon, roedd 16% yn gweithio fel crefftwyr medrus a 18% yn gweithio mewn galwedigaethau proffesiynol.

Mae 35% o'r bobl sy'n gweithio yn gorfod teithio mwy na 10km i gyrraedd y gwaith.⁸ Yn ôl yn 2011, dywedodd 14% eu bod yn gweithio gartref.

Roedd 70% o'r holl bobl mewn oedran gweithio (16 – 74) yn economaidd weithgar⁹ yn ward y Groeslon. O blith y rhai a oedd yn economaidd weithgar, roedd 3% yn ddi-waith ac 1.1% yn ddi-waith yn y tymor hir. O blith y 30% a oedd yn economaidd anweithgar, roedd 18% wedi ymddeol, roedd 4% yn fyfyrwr, roedd 4% yn sâl yn y tymor hir ac roedd 3% gartref yn gofalu am y teulu.

3.1.3 Mynediad at Wasanaethau

Yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, mae ardal y Groeslon o fewn yr 20% uchaf (271 allan o 1,909) o ardaloedd yng Nghymru sydd â'r mynediad gwaethaf at wasanaethau. Yn Llandwrog ei hun nid oes siopau, canolfan gymunedol (arall) nac amwynderau lleol.

3.1.4 Troseddu

Yn ystod 2019 cafwyd 71 o achosion o droseddau stryd¹⁰ yn ardal y Groeslon. Mae hyn yn cyfateb i 50.5 o droseddau'n cael eu cyflawni fesul 100,000 o'r boblogaeth (16+). Roedd bron i hanner y troseddau'n droseddau treisgar a throseddau rhywiol.

3.1.5 Y Gymraeg

Yn ôl Cyfrifiad 2011¹¹ y nifer y bobl dros 3 oed a allai siarad Cymraeg yn y ward oedd 81%. Mae hyn yn cymharu â 65% yng Ngwynedd ac 19% yng Nghymru.

⁵ Pobl ifanc 16-64 oed sy'n hawlio budd-dal diweithdra: Data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol

⁶ Arolwg Blynyddol Oriau ac Enillion : Data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol – Cyflog Wythnosol Gros Amser Llawn 2019

⁷ Data Cyfrifiad 2011 – Cymwysterau pobl ifanc 16 oed +

⁸ Data Cyfrifiad 2011 – Pellter Teithio i'r Gwaith – pobl ifanc 16 oed +

⁹ Data Cyfrifiad 2011 – Gweithgarwch Economaidd

¹⁰ Data.police.uk – Ffigurau Troseddau Stryd

¹¹ Data Cyfrifiad 2011 – Nifer sy'n gallu siarad Cymraeg 3 oed +

3.1.6 Iechyd a Lles

Yn 2011, dywedwyd bod gan bron i 20% o boblogaeth ward y Groeslon salwch neu anabled hirdymor¹² a nododd 4% fod eu hiechyd yn ddrwg neu'n wael iawn.

Dywedodd 10% o boblogaeth ward y Groeslon eu bod yn darparu gofal di-dâl.¹³ O'u plith, darparai bron i draean ohonynt o leiaf 20 awr o ofal di-dâl yr wythnos.

3.1.7 Aelwydydd¹⁴

Mae 202 o aelwydydd yn ward y Groeslon lle mai dim ond pobl o oedran pensiwn sy'n byw. Mae hyn yn cyfateb i 28% o'r holl aelwydydd, sy'n uwch na ffigur Cymru, sef 23%. O blith yr aelwydydd hyn, mae 125 yn cynnwys pobl o oedran pensiwn sy'n byw ar eu pennau eu hunain. Mae'r bobl hyn mewn mwy o berygl o brofi unigedd cymdeithasol ac unigrwydd.

Dim ond 11% o gartrefi sy'n cael eu rhentu'n gymdeithasol yn ward y Groeslon gyda 10% arall yn cael eu rhentu'n breifat. Nid oedd gan bron i 6% o aelwydydd wres canolog yn ôl yn 2011. Nid oedd gan 12% o aelwydydd gar yn ôl yn 2011. Mae gan yr ardal gyfradd uwch na chyfartaledd Cymru o bobl hŷn sy'n byw ar eu pennau eu hunain.

3.1.8 Cyfleusterau ac Asedau

Mae'r cyfleusterau presennol yn Llandwrog yn brin ac yn anymarferol ar y cyfan:

- Ysgol Llandwrog – gofod bach a ddefnyddir ar gyfer rhai digwyddiadau'n ymwneud â'r ysgol
- Eglwys Sant Twrog – anymarferol, dim festri
- Capel Bwlan – capel anghydfurfiol gyda festri hanner milltir o'r pentref
- Canolfan Bro Llanwnda – neuadd bentref ddidrwydded 2 filltir i ffwrdd, y dewis agosaf ar hyn o bryd ar gyfer grwpiau, cyfarfodydd cyhoeddus ac ati
- Gwylwyr y Glannau Llandwrog – ystafell fach mewn adeilad cyfagos

Nid oes siopau, caffis, na neuadd bentref/gymunedol ac mae trafndiaeth gyhoeddus yn gyfyngedig iawn (2 fws y dydd). Gan nad oes mannau cyfarfod na chyfleusterau cymunedol, ni allwn drefnu llawer o ddigwyddiadau i ddod â'r gymuned at ei gilydd. Dros y blynyddoedd, mae tystiolaeth bod rhai grwpiau cymunedol a grwpiau cymdeithasol lleol wedi dod i ben gan nad oedd ganddynt le cyfarfod lleol e.e. Merched y Wawr, Grŵp Ti a Fi, Tîm Pŵl, Tîm Dartiau, Aelwyd yr Urdd. Mae'r diffyg lle i gyfarfod hefyd yn rhwystr i grwpiau newydd ffurfio. Roedd Pwyllgor Pentref Llandwrog, a ffurfiwyd yn ddiweddar (2018), wedi bod yn cwrdd, cyn Covid-19, yng nghartrefi'r aelodau, sef yr unig opsiwn oedd ar gael.

Mae cyfleoedd i bobl ifanc gymdeithasu a chymryd rhan yn yr ardal yn gyfyngedig, hyd yn oed yn fwy felly ers i'r awdurdod lleol gau clybiau ieuencid dros ddwy flynedd yn ôl. Caernarfon yw'r dref agosaf;

¹² Data Cyfrifiad 2011 – Byw gyda salwch/anabled hirdymor

¹³ Data Cyfrifiad 2011 – Darparu gofal di-dâl

¹⁴ Data Cyfrifiad 2011

fodd bynnag, mae'r diffyg trafndiaeth gyhoeddus yn yr ardal yn golygu na all pobl ifanc fynd yno na dod oddi yno'n annibynnol, gan gynyddu'r risg o unigedd ac unigrwydd i'r grŵp oedran hwn.

3.2 Cynllun Cyfeillio Covid-19

Mewn ymateb i bandemig Covid-19 trefnodd cymuned Llandwrog (drwy Bwyllgor Pentref Llandwrog) Gynllun Cyfeillio i gefnogi trigolion bregus. Nodwyd bod dros 50 o unigolion yn agored i niwed oherwydd oedran, anabledd, cyflyrau meddygol ac ati. Trefnwyd pecyn bwyd hanfodol wythnosol ar gyfer yr aelwydydd hyn ac roedd tîm o wirfoddolwyr yn eu dosbarthu. Roedd y tîm o wirfoddolwyr hefyd yn cynnwys pobl ifanc leol a oedd am helpu, ac roedd eu cyfranogiad yn cyfrif tuag at eu Gwobr Dug Caeredin. Roedd y trigolion yn hynod ddiolchgar am y gefnogaeth hon, ac roedd y cyswllt wythnosol yn gwneud gwahaniaeth enfawr i'w lles. Mae'r cynllun Cyfeillion yn parhau, a chydabyddir bod angen mwy o gyfleoedd ar ein trigolion bregus i fynd ati i gymdeithasu.

3.3 Ein Hanes a'n Treftadaeth

Mae Llandwrog yn ardal gadwraeth. Mae'r pentref hanesyddol hwn yn amgylchynu'r eglwys fu'n sefyll yno ers dros ddau gan mlynedd. Mae nifer o'r cerrig beddau yn y fynwent o'r 18fed ganrif. Mae'r ysgol dan reolaeth wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru ac fe'i cynhelir gan awdurdod lleol Gwynedd. Mae ffurfiau pensaernïol penodol yn nodweddu llawer o'r tai a'r ysgol leol ac maent o'r herwydd yn adeiladau rhestredig. Y ffaith bod y dreftadaeth hon wedi ei chadw sy'n gwneud Llandwrog yn lle mor arbennig.

Pentref ystâd 'model' yw Llandwrog, a grëwyd mewn dau gyfnod penodol gan Wynniaid Plas Glynllifon yng nghanol y 19eg ganrif. Adeiladwyd Ty'n Llan yn y 1830au, er ei bod yn debyg ei fod yn cynnwys rhannau helaeth o strwythur cynharach, fel rhan o gynlluniau'r trydydd Arglwydd Newborough i ailddatblygu Llandwrog fel pentref ystâd. Tafarn bentref oedd Ty'n Llan ac roedd yn adeilad mawr ac iddo lawer o fanylder mewn arddull glasurol syml. Mae'n rhan annatod o'r pentref ystâd cynlluniedig pwysig hwn o'r cyfnod Fictoriaidd cynnar.

Mae holl adeiladau'r pentref a adeiladwyd gan ystâd Glynllifon yn adeiladau rhestredig Gradd II ac mae cymeriad Gothig Bictiwrésg amlwg iddynt. Yr ystad wreiddiol - nid chwarter milltir o'r pentref - bellach yw Parc Glynllifon ac yno ceir coleg amaethyddol Coleg Meirion-Dwyfor, gweithdai crefft a llawer o gyfleusterau addysgol. Mae caffi a drysfa wrth y fynedfa, ac mae arddangosfeydd megis injan stêm lorweddol sefydlog De Winton 1854 a boeler Cernyw, a adferwyd gan Fred Dibnah, yn atyniadau poblogaidd y gellir eu gweld yno. Mae'r parc yn agored i'r cyhoedd ac mae'n cynnwys gerddi o bwys hanesyddol a gwyddonol. Dynodwyd statws Gardd Hanesyddol (Gradd I) iddynt gan Cadw ac mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru wedi eu dynodi yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Mae'r Cydbwyllgor Cadwraeth Natur hefyd wedi'i dynodi Glynllifon yn Ardal Cadwraeth Arbennig o dan Atodiad II. Mae'n gynefin i'r ystlum pedol lleiaf, neu'r *rhinolophus hipposideros* a rhoi iddo ei enw Lladin. Mae'r safle 189.27 hectar hwn yn safle magu a chysgu i tua 6% o boblogaeth y rhywogaeth hon yn y Deyrnas Unedig.

Mae Ty'n Llan wedi bod yn guriad calon ein cymuned Gymreig ers cenedlaethau, yn fan lle mae'r Gymraeg yn iaith feunyddiol, gan roi cysylltiad dwfn i ni â'n hanes a'n diwylliant ac ymdeimlad o hunaniaeth sy'n cael ei rhannu gennym. Mae hon yn wlad sy'n gyfoethog o ran chwedlau a diwylliant byw.

Mae digonedd o enwau cymeriadau a lleoedd a geir yn chwedlau canoloesol y Mabinogi yn yr ardal gyfagos. Mae englynion trawiadol Eben Fardd, yn canmol bwyd a diod y dafarn, yn addurno'r brif wal allanol. Roedd Gerallt Lloyd Owen, un o'r beirdd enwocaf ac uchaf ei barch yng Nghymru, yn byw o fewn tafliad carreg.

Llandwrog yw cartref Sain, prif gwmni recordio Cymru, sydd wedi dathlu 50 mlynedd o fodolaeth. Bu cenedlaethau o gerddorion arloesol yn cyfarfod yn Nhy'n Llan i gyfansoddi rhai o'r casgliadau caneuon Cymraeg mwyaf poblogaidd erioed cyn eu recordio yn Stiwdio Sain ychydig bellter i ffwrdd.

Wedi'i leoli o fewn milltir neu ddwy i ddau Safle Treftadaeth y Byd UNESCO – Castell Caernarfon a Thirwedd Llechi Gogledd Cymru, mae Ty'n Llan yn lleoliad delfrydol i archwilio a dysgu am y ddau. Y chwareli, wrth gwrs, oedd un o brif ffynonellau cyfoeth y tîrffeddiannwr a gododd y pentref.

Gerllaw yn Ninas Dinlle ceir bryngaer o Oes yr Haearn sy'n eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol lle cafwyd hyd i greiriau Rhufeinig. Maes awyr hyfforddi yn ystod yr Ail Ryfel Byd oedd RAF Llandwrog ac fe'i defnyddiwyd yn ddiweddarach fel cyfleuster storio arfau. Fel rhan o Ymgyrch Sandcastle, yma y storiwyd nifer fawr o arfau Tabun y Natsïaid cyn eu gwaredu yn y môr maes o law.

Mewn partneriaeth, byddwn yn gwella ac yn hyrwyddo treftadaeth naturiol yr ardal ac yn diogelu'r safle treftadaeth hwn sydd mewn lleoliad canolog ar gyfer y dyfodol, gan ddarparu cyfleoedd a fydd o fudd i holl aelodau'r gymuned. Bydd y datblygiad yn parchu, yn hyrwyddo ac yn diogelu cymeriad yr Ardaloedd Cadwraeth hyn.

3.4 Twristiaeth a'r Sylfaen Cwsmeriaid Posibl

Sylfaen gyntaf cwsmeriaid Ty'n Llan, gydol y flwyddyn, fydd trigolion lleol Llandwrog, Dinas Dinlle a'r cyffiniau. Y nod yw creu cyfleuster cymunedol a fydd yn annog pobl leol i'w ddefnyddio, a bydd y gwasanaeth a ddarperir yn yr adeilad yn adlewyrchu hynny. Y bwriad pellach fydd ennill enw i Ty'n Llan, ei adnoddau, ei wasanaethau a'i arbenigrwydd diwylliannol, fel atyniad a lle i ymweld ag ef ar gyfer trigolion ardal tipyn ehangach – o rannau eraill o Ogledd a Chanolbarth Cymru yn arbennig.

Ac wrth gwrs mae marchnad ymwelwyr lawer ehangach y gallwn fanteisio arni yn ystod rhai adegau o'r flwyddyn. Mae Llandwrog mewn lleoliad perffaith i fanteisio ar dwristiaeth. Mae wedi ei leoli nid nepell o brif gefnffordd yr A499 o Gaernarfon i Bwllheli, yn agos iawn at Barc Cenedlaethol Eryri a Phen Llŷn, ac mae traeth Dinas Dinlle i lawr y lôn. Mae Llandwrog hefyd o fewn ychydig gannoedd o lathenni i Lwybr Dave Brailsford, sef dau lwybr beicio o wahanol bellter sy'n tywys pobl o amgylch y

Parc Cenedlaethol, yn ogystal â rhwydwaith beicio'r Lonydd Glas sy'n targedu'r farchnad beicio teuluol a hamdden.

Yng Ngorffennaf 2021, dyfarnodd UNESCO statws Treftadaeth y Byd i Dirwedd Llechi Gogledd Cymru. Mae Llandwrog gwta ddwy filltir i ffwrdd o rai o'r hen safleodd chwarelyddol mwyaf nodweddiadol ac mae mewn lle delfrydol i fod yn ganolfan i'r rheiny sydd am ddod i adnabod y tirwedd unigryw yma.

Mae Llandwrog hefyd oddi fewn i ardal farchnata Eryri Mynyddoedd a'r Môr, sef y 'brand' sy'n cael ei hyrwyddo gan dîm Twristiaeth Cyngor Gwynedd. Ei ddiben yw hyrwyddo'r ardal gyfan, a'r gwahanol gynhyrchion a geir yn yr ardal, ac mae cynhyrchion twristiaeth eraill sy'n cael eu marchnata'n genedlaethol hefyd yn rhan o'r arlwy gyffredinol.

Un o'r cynhyrchion presennol hyn yw Lôn Cymru, sef tri llwybr o amgylch nifer o atyniadau Cymru a gweithgareddau i'w gwneud. Y tri llwybr yw Lôn Cambria (o Landudno i Gaerdydd, yr A470 yn y bôn!), Lôn Gogledd Cymru (ar hyd arfordir gogledd Cymru - yr A55), a Lôn yr Arfordir (o Dŷ Ddewi yn Sir Benfro i Aberdaron). Mae Llandwrog rhwng Lôn Gogledd Cymru a Lôn yr Arfordir.

Cynnyrch twristiaeth cenedlaethol arall sy'n llawer nes yw Llwybr yr Arfordir. Llwybr 870 milltir o amgylch arfordir Cymru yw Llwybr yr Arfordir sy'n denu dros 2 filiwn o ymwelwyr i Gymru bob blwyddyn, ac mae tua 30% ohonynt angen llety ar hyd y daith. Mae rhan leol y llwybr o fewn pellter cerdded hwylus i Ty'n Llan.

Rhwng y gwahanol gynhyrchion proffil uchel sydd o'n cwmpas - yr arlwy o ran beicio, cerdded a bod y traeth o fewn cyrraedd - mae marchnad ymwelwyr sylweddol i'w thargedu.

Os edrychwn ar niferoedd cyffredinol ymwelwyr i'r ardal (Gwynedd), ymwelodd 7.8 miliwn o bobl â'r ardal yn 2019, gyda 3.97 miliwn ohonynt yn aros yma (sy'n cyfateb i 20.1 miliwn o nosweithiau ymwelwyr), a 3.84 miliwn yn ymwelwyr dydd (23.93 diwrnod ymwelwyr). Cynyddodd cyfanswm cyffredinol nifer yr ymwelwyr 11.6% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol yn ôl ystadegau Cyngor Gwynedd. Mae dros filiwn o ymwelwyr unigryw yn ymweld â gwefan swyddogol www.visitsnowdonia.info, ac mae cynnydd o flwyddyn i flwyddyn yng nghyrhaeddiant a nifer dilynwyr sianeli cyfryngau cymdeithasol yr ardal.

Os edrychwn ar y proffil ymwelwyr, daw 50% o rannau eraill o Gymru, 46% o rannau eraill o'r Deyrnas Unedig, a 4% o dramor. Daw 75% ohonynt o grŵp economaidd-gymdeithasol ABC1 ac mae 29% o'r ymwelwyr yn gyplau, 24% yn deuluoedd â phlant ifanc, ac 19% yn deuluoedd â phlant hŷn. Daw'r ffigurau hyn o 2019 (cyn covid), a gallai rhywun dybio gyda rhywfaint o sicrwydd y bydd twf y farchnad gwyliau cartref yn ystod ac ar ôl Covid yn peri cynnydd yn y ffigurau hyn.

Y prif resymau a roddwyd dros ymweld oedd y dirwedd, cefn gwlad, lleoliad arfordirol, gweithgareddau/chwaraeon awyr agored, ac atyniadau treftadaeth/hanesyddol. Unwaith eto, mae'r holl resymau hyn dros ymweld ar garreg ein drws.

Ystyriaeth bwysig iawn arall i'n marchnad yw pa mor agos yw Dinas Dinlle, lle ceir dau barc carafanau mawr ac un llai ei faint. Amcangyfrifwn fod cyfanswm y gwelyau yn y dalgylch oddeutu 1800-2800, gan gynhyrchu 400,000 - 600,000 o nosweithiau gwely y flwyddyn ac ar gyfartaledd defnydd fesul ymwelydd o 4 noson yr ymweliad. Mae hyn yn rhoi amcangyfrif o 100,000-150,000 o ymwelwyr y flwyddyn i ni. O ystyried bod y mwyafrif helaeth o'r gwelyau mewn carafanau sefydlog ar brydles gan berchenogion (yn Ninas Dinlle) mae'n debygol y byddai efallai 50% yn ymwelwyr eildro. Daw hyn â nifer yr ymwelwyr aros newydd â'r ardaloedd i 50,000 -75,000. At y ffigwr hwn mae angen ychwanegu rhai ymwelwyr dydd. Os amcangyfrifwn ar hyn o bryd bod 5% o ymwelwyr i Landwrog/Dinas Dinlle yn cael eu denu i ymweld â Ty'n Llan yna mae hyn yn awgrymu ffigwr o 2500 – 3750 o ymwelwyr unigryw y flwyddyn. Credwn ei bod yn rhesymol tybio y byddai gwneud Ty'n Llan yn "gynnig" mwy diddorol a gwerth chweil yn cynyddu'r gyfradd ymyrraeth i 7.5% neu hyd yn oed 10%.

3.5 Y Gystadleuaeth

Nid oes unrhyw beth cyffelyb i'r model o dafarn bentref gydag ystafelloedd / bwyty / caffi yr ydym ni yn ei gynllunio o fewn 5 milltir – nac yn wir o fewn 8 milltir os ydym yn eithrio tref Caernarfon.

Cyfleusterau lleol presennol:

I'r gogledd:

- Y Newborough, Bontnewydd (3 milltir) – ar y brif ffordd, tafarn yn gweini bwyd
- Canolfan Arddio Fron Goch (4 milltir) - canolfan arddio gyda chaffi poblogaidd iawn
- Caernarfon (5 milltir) – nifer o dafarndai a bwytai; y lle tebycaf yw Tafarn y Black Boy

I'r dwyrain:

- Pennionyn, Groeslon (2 filltir) - tafarn draddodiadol, dim bwyd na llety

I'r de:

- Yr Afr, Penygroes (3 milltir) - tafarn draddodiadol, dim bwyd na llety
- Pant Du (3 milltir) – gwinllan a pherllan gyda bwyty/caffi newydd a golygfeydd gwych
- Deli'r Banc, Penygroes (3 milltir) - deli a chaffi
- Yr Orsaf, Penygroes (3 milltir) - caffi
- Tafarn yr Afr, Glandwyfach (10 milltir) – tafarn fawr gyda bwyty llwyddiannus iawn

I'r gorllewin:

- Traeth Dinas Dinlle – hufen iâ, pysgod a sglodion. Caffi / bwyty 'Braf' sydd â chysylltiadau agos hefo Ty'n Llan. Mae gan y parciau carafannau gyfleusterau clwb.

4. Cynnwys y Gymuned a Gweithio mewn Partneriaeth

4.1 Cynnwys y Gymuned ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

4.1.1 Cyfarfodydd Cyhoeddus Zoom

Trefnwyd cyfarfod cyhoeddus cychwynnol ar 9 Chwefror 2021 i geisio barn pobl am y syniad o brynu a rhedeg Ty'n Llan fel menter gymunedol. Cafwyd ymateb anhygoel, gyda 64 o aelwydydd yn ymuno yn y cyfarfod, ac amcangyfrifwn eu bod yn cynrychioli cyfanswm o tua 100 o bobl. Cyflwynwyd y syniad a rhannu sut y byddai'r math hwn o gynllun yn gweithio. Roedd cynrychiolwyr o Dafarn y Plu, Llanystumdwy hefyd yn bresennol i rannu eu profiad o redeg tafarn gymunedol. Y consensws cyffredinol oedd bod pobl yn cefnogi'r cynnig hwn a'u bod yn awyddus i fwrw ymlaen â'r syniad. Yn dilyn hyn, lansiwyd apêl gennym i fenthyca'r arian oedd ei angen i brynu'r adeilad gyda benthyciadau tymor byr.

Trefnwyd ail gyfarfod ar 9 Mawrth 2021 ac roedd 58 o aelwydydd yn bresennol. Y diben oedd rhoi diweddariad i bobl am y broses o brynu'r adeilad, trafod canfyddiadau'r holiadur (gweler isod), ac ystyried gweledigaeth ar gyfer yr adeilad. Unwaith eto, cafwyd cefnogaeth aruthrol i'r cynigiol a chytunwyd i fwrw ymlaen i sicrhau bod yr adeilad yn cael ei brynu.

4.1.2 Holiadur Cymunedol

Ar 10 Chwefror, lansiwyd holiadur gennym i gasglu syniadau ac awgrymiadau pobl. Ymatebodd cyfanswm o 203 o aelwydydd, a oedd yn cynrychioli cyfanswm o 406 o bobl. Mae'r canfyddiadau allweddol yn cynnwys:

- Roedd cefnogaeth gref iawn i'r syniad, gydag 88% o ymatebwyr yn ystyried bod prynu Ty'n Llan fel cymuned yn 'bwysig' neu'n 'bwysig iawn'
- Dywedodd 57% o aelwydydd y byddent yn defnyddio'r cyfleusterau 'o leiaf unwaith yr wythnos'
- Roedd y gwasanaethau a'r cyfleusterau ychwanegol mwyaf poblogaidd yn cynnwys: bwyd gyda'r nos, digwyddiadau, cinio dydd Sul, ardal lle byddai croeso i deuluoedd, bwyd yn ystod y dydd
- Roedd y syniadau ychwanegol mwyaf poblogaidd a gynigiwyd yn cynnwys: grwpiau a dysgu, digwyddiadau awyr agored, lle i'w rentu, ffitrwydd, cyfleusterau addas i blant a phobl ifanc
- Nododd dros 40 o aelwydydd (cyfanswm o tua 85 o bobl) y byddent eisiau gwirfoddoli yn ystod y datblygiad a helpu i redeg y fenter

Gellir gweld yr adroddiad llawn yn **Atodiad 1**.

4.1.3 Ymgynghori ynglŷn â chynlluniau'r adeilad

Ym mis Rhagfyr 2021 gwahoddwyd aelodau'r gymuned ac aelodau'r Fenter i roi eu hymateb i gynlluniau'r pensaer ar gyfer adnewyddu'r adeiladau a chreu'r estyniad sy'n rhan hanfodol o'r Cynllun Busnes. Cyflwynwyd dau opsiwn, gan amlygu gwahanol bwyslais o ran defnydd o'r gofod a'r diwyg allanol. Agorwyd y dafarn am ddiwrnod er mwyn arddangos y cynlluniau ac ateb cwestiynau, a rhoddwyd cyhoeddusrwydd ar y cyfryngau cymdeithasol i'r posibilrwydd o gael golwg ar y cynlluniau ar y we. Roedd modd ymateb arlein neu trwy lenwi ffurflen bapur. Derbyniwyd 91 ymateb, gyda'r mwyafrif yn ffafrio'r ail opsiwn a gynigiwyd gan ei fod yn gwneud gwell defnydd o'r gofod, yn plethu'n well gyda'r ardd ac yn galluogi gwell symudiad o amgylch yr adeilad. Nodwyd nifer o sylwadau amrywiol ychwanegol ac fe'u cyflwynwyd i sylw'r pensaer.

4.1.4 Ymgysylltu â Rhanddeiliaid a Phartneriaid

Yn ogystal â thrafodaethau blaenorol gyda phartneriaid posibl a'r ymgynghoriadau gyda rhanddeiliaid y cyfeirir atynt uchod, mae cyfres o weithdai wedi'u cynnal yn cynnwys:

- Aelodau cymuned leol Menter Ty'n Llan
- Clwb Cinio Pobl dros 60 oed
- Aelodau o grŵp ieuencid Ty'n Llan Ni
- Clwb Cerdded Ty'n Llan (clwb cerdded)
- Ysgol Llandwrog (pennaeth a phlant)
- Pwyllgor Rheoli Menter Ty'n Llan

Ymgynghorwyd ymhellach ag amrywiaeth o bartneriaid, partneriaid posibl, rhanddeiliaid, busnesau lleol a sefydliadau cymharol a gydag ymgynghorwyr gan gynnwys y pensaer a'r pensaer tirwedd. Mae'r rhain i gyd wedi cyfrannu at ffurfio'r Cynllun Gweithgaredd sy'n sail i'r Cynllun Busnes hwn. Mae cynrychiolwyr gwleidyddol o'r ddwy Senedd ac o Gyngor Gwynedd wedi ymweld, datgan eu cefnogaeth a chael gwybod am ddatblygiadau. Mae enghreifftiau o lythyrau cymorth i'w gweld yn Atodiad 2.

4.2 Ennyn Diddordeb Ystod Ehangach o Bobl

4.2.2 Y profiad hyd yn hyn

Un syniad ar y cychwyn oedd y byddai'r ail-agor ar ôl prynu'r dafarn yn cael ei ddal yn ôl nes bod y gwaith ailddatblygu wedi'i gwblhau. Yn fuan iawn daeth yn amlwg na fyddai hyn yn dderbyniol i'r gymuned. Felly mabwysiadwyd cynllun gyda'r enw 'Ty'n Llan – Dros Dro'. Roedd hyn yn golygu defnyddio swm bach o'r cyfalaf oedd yn weddill ar ôl y pryniant, ynghyd â llawer iawn o amser gwirfoddolwyr, i gael y safle i ryw fath o gyflwr lle gellid ei ddefnyddio dros dro. Y targed oedd ail-agor mewn pryd ar gyfer y Nadolig (2021) - cyfnod pan oedd Ty'n Llan bob amser ar ei brysuraf yn draddodiadol. Ymunodd tua 80 o wirfoddolwyr yn y gwaith ac ar Ragfyr 18fed agorwyd y drysau eto, gyda pherson lleol wedi'i phenodi'n rheolwr tan fis Ebrill (yn unol â'i hargaeledd). Mewn

gwirionedd, dyma'r sefyllfa o hyd (Awst 2023) gan nad oes unrhyw gyfleusterau newydd wedi'u hychwanegu eto ac nid oes unrhyw waith adnewyddu mewnol wedi'i wneud chwaith.

Fodd bynnag, dim ond rhan fechan o'r stori y mae hyn yn ei hadrodd. Mewn gwirionedd, mae'r darlun yn un o dwf graddol ac o gryfhau, o fewn y cyfyngiadau presennol. Dechreuodd grwpiau gweithgaredd a chlybiau gael eu ffurfio'n gyflym iawn, gan ddefnyddio hen ystafell fwyta'r dafarn fel man cyfarfod. Mae'r rhestr yn helaeth:-

Grŵp Garddio – Yn cyfarfod yn rheolaidd o ddiwedd y gwanwyn i'r hydref, gan ddylunio, plannu a gofalu am bob agwedd ar yr ardd a'r cyfleusterau awyr agored

Grŵp Cerdded – Yn cychwyn o Ty'n Llan bob bore Gwener drwy gydol y flwyddyn a dychwelyd yno ar gyfer coffi a rhyngweithio cymdeithasol

Cylch darllen – Yn cyfarfod yn fisol

Ty'n Llan Ni – Ar gyfer plant 10-15 oed. Yn cyfarfod yn rheolaidd, gan ymgymryd â phrosiectau creadigol sy'n gofyn am gaffael sgiliau newydd

Sesiynau Sgwrsio – Cyfle unwaith y mis i ddysgwyr Cymraeg ddod i ymarfer eu sgiliau yng nghwmni siaradwyr rhugl

Sesiynau Sgwrsio Ffrangeg

Ymarfer Corff Cadair – Sesiynau unwaith yr wythnos gydag athro profiadol

Clwb cinio – Unwaith bob pythefnos, cinio gyda chymhorthdal ar gyfer pobl dros 65 oed

Clwb coffi – Bob bore Gwener cyfle rheolaidd i ddal i fyny

Noson cwis – Digwyddiad dwyieithog unwaith y mis

Clwb Crosio – Menter newydd ar gyfer haf 2023

Yn ogystal, mae rhestr gynyddol o gerddorion Cymraeg o bob oedran a chwaeth wedi'u gwahodd i gyflwyno adloniant naill ai yn y bar, yr ystafell fwyta neu mewn pabell allanol dros dro. Mae sesiynau cyfansoddi caneuon wedi bod yn agored i bawb, mae carioci wedi amlygu doniau newydd annisgwyl ac mae'r noson gomedi standyp gyntaf wedi'i threialu, gyda chefnogaeth cynllun Talent Mewn Tafarn a gefnogir gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Yng Ngorffennaf 2023 cynhaliwyd yr Eisteddfod Dafarn gyntaf – fersiwn ychydig yn llai difrifol o'r digwyddiad diwylliannol Cymreig traddodiadol, yn agored i bawb a gyda mynediad am ddim, gan redeg drwy'r prynhawn a gyda'r nos.

Mae pob un o'r uchod yn dibynnu'n llwyr ar syniadau a sgiliau trefnu llawer o wirfoddolwyr gwahanol, ac fe'u cydlynir gan Bwyllgor Digwyddiadau'r Gymdeithas. Gellir cyfrif y niferoedd sy'n cymryd rhan yn eu cannoedd. Mae hyn yn ychwanegol at yr ymrwymadau gwirfoddoli craidd sydd wedi cynnal y fenter o'r cychwyn cyntaf, ac sydd wedi cynnwys mwy na 50 o bobl yn cyfrannu eu hamser yn rheolaidd. Mae'r rhain wedi cynnwys:

- Cam datblygu'r prosiect - pwyllgor ac is-grwpiau, clirio'r safle, paentio, addurno, garddio a thirlunio, dylunio mewnol, dylunio bwydlenni
- Rhedeg y busnes a'r Gymdeithas – ceisiadau am grantiau a'u goruchwylio, gweinyddu, cadw cyfrifon, helpu yn y gegin, gweini, glanhau

At y rhain bydd y canlynol yn cael eu hychwanegu:

- Cyflwyno'r Cynlluniau Gweithgarwch a Dehongli Treftadaeth ochr yn ochr â'r Swyddog Treftadaeth Gymunedol

4.2.3 Swyddi

Mae'r prosiect eisoes wedi creu 5 o swyddi parhaol ac 13 o swyddi rhan amser. Gan gynnwys gweithio dros yr haf, mae 20 o bobl, llawer ohonynt yn ifanc, wedi cael y cyfle i weithio yn Ty'n Llan yn y cyfnod o 18 mis rhwng agor ym mis Rhagfyr 2021 a mis Mehefin 2023. Wrth i'r prosiect dyfu, gan ehangu o ran cwrpas ac uchelgais, bydd amrywiaeth a nifer y cyfleoedd cyflogaeth yn tyfu, gan ein galluogi i wneud y mwyaf o'i fanteision cymdeithasol ac economaidd. Gwelodd ward Groeslon un o'r codiadau mwyaf yn nifer y rhai sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith ym mis Chwefror 2021, felly mae dirfawr angen y swyddi a'r cyfleoedd hyfforddi hyn.

4.2.4 Ymwneud â Threftadaeth

Bydd ymgysylltu â threftadaeth yn Ty'n Llan yn:

- Gwella canfyddiadau o yrfaeodded yn y diwydiant twristiaeth a lletygarwch
- Darparu cyfleoedd i drigolion lleol gynnal iechyd meddwl a lles da trwy ryngweithio cymdeithasol, gan gynnwys rhwng pobl iau a hŷn, a lleihau unigrwydd
- Codi dyheadau ac uchelgais pobl ifanc a gwella eu gallu i gyflawni trwy fod yn greadigol
- Helpu i gefnogi llythrennedd, rhifedd a sgiliau bywyd
- Cefnogi datblygiad sgiliau digidol
- Cryfhau'r cysylltiad rhwng cymunedau a'r economi ymwelwyr
- Helpu pobl i gael gwaith trwy sgiliau, profiad gwaith a hyfforddiant
- Darparu gweithgareddau a dehongliadau sy'n agored i bobl o bob oed, gan gynnwys gofawr, a gan gefnogi pobl ag anableddau dysgu
- Darparu cyfleoedd newydd i fwynhau hamdden awyr agored ac i hyrwyddo ffyrdd o fyw'n iach
- Hyrwyddo teithio llesol ymhlith trigolion lleol ac ymwelwyr
- Cynyddu cerdded a beicio i wella iechyd
- Hyrwyddo'r manteision iechyd, lles a hapusrwydd a ddarperir trwy fwynhau'r celfyddydau
- Ysgogi awydd am wirfoddoli a chyfranogiad cymunedol
- Hyrwyddo mynediad i fyd natur

4.2.3 Gweithio Gyda Phartneriaid a Rhanddeiliaid

Mae yna gefnogaeth i'r busnes gan randdeiliaid, cymdeithasau a busnesau yn yr ardal ehangach (gweler enghreifftiau o lythyrau cymorth yn Atodiad 2). Yn y tymor hir, bydd gweithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau lleol yn hanfodol er mwyn i Fenter Ty'n Llan barhau i ysgogi gweithgaredd cymunedol, helpu i leihau arwahanrwydd cymdeithasol, gwella lles a darparu buddion economaidd i'r pentref a'r ardal ehangach. Mae gwahanol gymhellion i'r partneriaethau

hyn - gwerth cymdeithasol, gwerth masnachol, ac ymgysylltu â threftadaeth -ac mae pob partner yn cynrychioli cyfuniad o'r rhain. Mae'r sylfeini cynnar ar gyfer y partneriaethau hyn eisoes wedi'u gosod, ac mae Cyfnod Datblygu'r prosiect CTLG wedi helpu i gadarnhau'r ddwy bartneriaeth hyn a sut y byddwn yn eu rheoli fel sefydliad. Mae cysylltu sefydliadau eraill drwy'r gweithgareddau a ariennir gan CTLG hefyd yn debygol o greu partneriaethau fydd yn esblygu y tu hwnt i'r prosiect ac nid dim ond y rhai sy'n ymwneud yn uniongyrchol â Ty'n Llan.

4.2.5 Rheoli Partneriaethau

Mae cyswllt personol yn allweddol i'r partneriaethau a'r rhwydweithiau. Yn ystod y prosiect CTLG, cyfrifoldeb is-bwyllgor Menter Ty'n Llan fydd y berthynas gyda'r partneriaid cyflawn. Cânt eu cefnogi gan y Rheolwr Prosiect a'r Swyddog Treftadaeth Gymunedol fel y bo'n briodol. Bydd y Swyddog Treftadaeth Gymunedol yn rheoli'r gweithgareddau CTLG o ddydd i ddydd, er enghraifft, ond fe fydd yna ymwneud rhwng pob un o'r partneriaid hyn a Menter Ty'n Llan ar lefel y Pwyllgor Rheoli. Byddwn yn sicrhau bod Aelodau'r Bwrdd ar yr Is-bwyllgor yn cymryd rhan mewn unrhyw ryngweithio ffurfiol neu gamau cynllunio, fel bod partneriaid a chyfranogwyr yn datblygu perthynas ar sail ymddiriedaeth ac yn dod yn gyfarwydd â'r sefydliad yn hytrach na dim ond gyda'r staff cyflogedig.

4.2.6 Cynllunio Partneriaethau Tymor Hir

Gwyddom y gall sefydliadau partner fel Gwaith Gwynedd (Cyngor Gwynedd) gynnig gwasanaethau i'n cefnogi i gyflawni gwerth cymdeithasol yn y tymor hwy. Rydym yn gweithio gyda Mantell Gwynedd / Social Value Cymru i gynllunio'r perthnasoedd hyn a sut y gallwn ymgorffori cyflenwi gwerth cymdeithasol yn ein cynllunio busnes.

Darpar bartneriaethau tymor hir fydd y rhai sy'n parhau i gefnogi naill ai gwerth cymdeithasol, gweithgaredd masnachol neu ymgysylltiad â threftadaeth y tu hwnt i brosiect y CTLG. Bydd perthnasoedd Cyfnod Cyflenwi CTLG yn bennaf yn ein galluogi i ddeall pa berthnasoedd sydd fwyaf effeithiol yn hyn o beth, ac i ddatblygu'r gallu i barhau i ddarparu gwerth cymdeithasol y tu hwnt i brosiect yr CTLG. Y bwriad yw y bydd Ty'n Llan, unwaith y bydd y gweithgareddau CTLG wedi'u cwblhau, yn gallu parhau i gynnig buddion – fel arfer gwerth cymdeithasol neu 'les cymdeithasol' – i'r partneriaid hynny.

Er mwyn i hyn fod yn gyraeddadwy, mae'n rhaid i'r berthynas rhwng Menter Ty'n Llan a phob un o'r partneriaid hyn ddatblygu yn ystod y prosiect CTLG a rhoi trefniadau ar waith sy'n nodi beth fydd yn digwydd ar ôl Blwyddyn 3. Bydd parhau i ddarparu gweithgareddau cymdeithasol cynhwysol, gan gynnwys mae'n debyg yr angen i ddarparu gwasanaethau llesiant, yn ystyriaeth bwysig. Yn achos rhai gweithgareddau a ariennir gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol (y rolau garddio a rhandiroedd) mae yna fantais i waith yr is-bwyllgor awyr agored. Yn seiliedig ar yr hyn gaiff ei

ddysgu gennym yn ystod y prosiect, efallai y bydd yn bosibl addasu gweithgareddau eraill a ariennir gan CTLG sy'n ymestyn y tu hwnt i werth cymdeithasol er budd Menter Ty'n Llan.

Mewn perthynas â gweithgareddau a dehongli CTLG, mae eu hamanion strategol hwy wedi eu hysgrifennu fel bod yna weithio tuag at gyflawni nodau ac amcanion partneriaid a rhanddeiliaid, yn ogystal â rhai Menter Ty'n Llan.

Bydd ein cynllun busnes yn parhau i esblygu wrth i'n gweithgareddau esblygu, wrth i'n busnes wella'n sgiliau o ran cyflawni gwerth cymdeithasol a chanlyniadau masnachol, ac wrth i anghenion ein partneriaid esblygu. Mae amserlen CTLG yn nodi rhai dyddiadau ar gyfer adolygiad cyfnod o'r cynllun busnes, a fydd yn caniatáu i'r anghenion esblygol hyn gael eu hystyried. Bydd yn rhaid ystyried rhwystrau parhaol i ymgysylltu – yn enwedig yn ein hachos ni, y cysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus gwael a chostau trafndiaeth yn fwy cyffredinol – yn ogystal ag amser staff neu wirfoddolwyr i ddarparu gweithgareddau o werth cymdeithasol. Gyda chefnogaeth Mantell Gwynedd / Social Value, bydd Menter Ty'n Llan yn datblygu cytundebau sy'n briodol ar gyfer pob un o'r partneriaid hyn. Yn achos Mantell Gwynedd ei hun, mae Ty'n Llan eisoes yn aelod ac nid oes angen cytundeb partneriaeth, gan fod y gwasanaethau a gynigir gan Mantell Gwynedd yn rhan o'u cylch gorchwyl presennol.

4.2.7 Partneriaid Cyflawni

Er mwyn cyflawni'r prosiect CTLG, yn ystod y Cyfnod Datblygu fe wnaethom nodi partneriaid a fydd yn gweithio gyda ni'n lleol i wneud y mwyaf o fanteision y prosiect, ac i gyrraedd yr ystod ehangaf bosibl o bobl. Bydd y sefydliadau partner hyn yn dod â'u sgiliau a'u dylanwad i'r prosiect. Bydd rhai yn cefnogi gweithgareddau prosiect yn uniongyrchol ac yn ymwneud yn agos â datblygu dehongliad. Bydd rhai yn hyrwyddo'r gweithgareddau i'w defnyddwyr ac yn helpu i sicrhau bod y gweithgareddau'n diwallu anghenion eu defnyddwyr yn ystod eu cyflwyno. Mewn rhai achosion dim ond cytundeb anffurfiol sydd ei angen, megis llythyr o gefnogaeth gan Mantell Gwynedd. Mewn achosion eraill, er enghraifft Antur Waunfawr, bydd angen cytundebau partneriaeth mwy ffurfiol unwaith y bydd y manylion yn gliriach.

Mae nifer fach o'r partneriaid cyflenwi ar gyfer prosiect CTLG, y byddwn yn gweithio'n agos iawn gyda nhw yn ystod y prosiect, wedi'u nodi fel rhai sydd â'r potensial i ddod yn bartneriaid tymor hir. Y rhain yw:

- **Antur Waunfawr:** yn ystod prosiect CTLG, bydd rhai o'r bobl sy'n defnyddio eu gwasanaethau (sydd ag anabledau dysgu) yn cymryd rhan yn y gweithgaredd Llwybrau Tywys. Mae cangen Beics Antur o'r busnes yn bwriadu gosod rhai o'u beiciau llogi mewn storfa ddiogel yn Nhy'n Llan unwaith y bydd y safle'n ailagor, fel bod llwybr sy'n cysylltu Ty'n Llan â Chaernarfon yn cael ei ychwanegu at y cynnig i ymwelwyr. Mae Beics Antur ar hyn o bryd yn astudio dichonoldeb y cynnig hwn gan eu bod yn gobeithio gallu hyrwyddo'r llwybr newydd hwn i'w cwsmeriaid a'u defnyddwyr. Byddai'r berthynas gyda Beics Antur ar wahân i'r prosiect CTLG, ond yn parhau ar ôl y cyllid. Efallai y bydd

angen cynnwys costau a buddion yn y rhagolygon incwm/gwariant. Bydd angen cytundeb partneriaeth ar gyfer y cydweithrediad arfaethedig (ar gyfer storio beiciau, gofod, hyrwyddo, priso, ac ati) sy'n nodi'r trefniadau masnachol cyn i'r gweithgaredd llogi beiciau ddechrau. Rydym ar hyn o bryd yn gweithio gyda'u Rheolwr Datblygu Busnes i drefnu hyn.

- **Cymru'n Gweithio / Gyrfa Cymru:** yn ystod y prosiect CTLG byddant yn trefnu lleoliadau gwaith yn y gegin ar gyfer dysgwyr oed ysgol uwchradd. Mae tîm staff Ty'n Llan yn hapus i gefnogi hyn. Os yw'n gynaliadwy yn ariannol yna dylai'r trefniant hwn barhau ar ôl y prosiect, gan ei fod yn cefnogi'r buddion economaidd a fwriedir i gymuned prosiect Menter Ty'n Llan.

- **Coleg Glynllifon:** yn ystod prosiect CTLG maent yn awyddus i rai o'u myfyrwyr coginio wneud rhywfaint o brofiad gwaith yn Ty'n Llan fel rhan o'r gweithgaredd clwb cegin. Mae tîm staff Ty'n Llan yn hapus i gefnogi hyn, ac mae Coleg Glynllifon yn hyblyg ynglŷn â phryd y bydd hyn yn digwydd fel nad yw'n creu anhwylustod. Gan nad yw holl fyfyrwyr Coleg Glynllifon wedi'u lleoli'n lleol iawn, mae'n debyg bod lle i rai o'r rhwydwaith newydd o dafarndai cymunedol ddarparu arlwy tebyg ar gyfer myfyrwyr sy'n nes atyn nhw. Os yw'n gynaliadwy yn ariannol yna dylai'r trefniant hwn barhau ar ôl y prosiect gan ei fod yn cefnogi'r buddion economaidd a fwriedir ar gyfer cymuned prosiect Menter Ty'n Llan. Rydym hefyd wedi trafod ymweliadau â Thy'n Llan gan eu Myfyrwyr Byw'n Annibynnol, ond mae hyn y tu allan i gwmpas y prosiect CTLG.

- **GISDA** (elusen sy'n cefnogi pobl ifanc 16-26, LGBTQ a digartref) - yn ystod y prosiect CTLG maent yn awyddus i rai o'r bobl ifanc (16-25) y maent yn eu cefnogi wneud rhywfaint o brofiad gwaith yn Ty'n Llan fel rhan o weithgaredd y clwb cegin. Maent hefyd yn awyddus i'r bobl ifanc fynychu unrhyw hyfforddiant mewn lletygarwch a threftadaeth a fydd ar gael yn Ty'n Llan (e.e. gweithdai barista a hyfforddiant sgiliau cegin). Maent yn cydnabod nad oes unrhyw sefydliadau eraill yn ardal Arfon sy'n cynnig cyfleoedd o'r fath.

- **Tafarnau cymunedol:** yn ystod y prosiect CTLG disgwylir y bydd rhwydwaith ffurfiol o fentrau cymunedol Gwynedd a Môn yn cael ei sefydlu. Gallai'r rhwydwaith hon arwain at hyrwyddo ar y cyd a gwaith cydweithredol arall neu weithgareddau cyfatebol, gan gynnwys cyfleoedd hyfforddi ar y cyd a rhannu gwersi a ddysgwyd yn y gwahanol ganolfannau. Y bwriad yw bod hyn yn parhau ar ôl y prosiect a bydd y berthynas yn esblygu'n gyflym i weddu i'r holl bartïon dan sylw.

- **Gwaith Gwynedd (Cyngor Gwynedd):** yn ystod prosiect CTLG byddant yn cefnogi Menter Ty'n Llan gyda hyfforddiant ar gyfer datblygiad gweithdrefnau fel rhan o'r gweithgaredd hwnnw. Yn benodol, byddant yn gweithio gyda ni i gynllunio pecyn hyfforddi Gwerth Cymdeithasol ar gyfer ein tîm craidd fel bod rhagnodi cymdeithasol ac elw cymdeithasol ar fuddsoddiad yn rhan annatod o'n rheolaeth yn gynnar yn y broses. Yn y tymor hwy, fe fyddent yn hoffi darparu gweithdai sgiliau yn Nhy'n Llan, megis gweithdai CV a ffug gyfweiliadau. Mae hyn yn rhywbeth maen nhw'n ei wneud yn Yr Orsaf, Penygroes, yn barod. Gallai rhywfaint o'r hyfforddiant a ddarperir ganddynt yn achlysurol (e.e. gweithdai barista a hyfforddiant sgiliau cegin) gael ei gefnogi gan staff arlwyo Ty'n Llan, staff

bar a gwirfoddolwyr. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gyda'u Hymgyngorydd Ymgysylltu â Chyflogwyr a Rheolwr Cyflogadwyedd er mwyn trefnu hyn.

- **Grŵp Cynefin:** mae'r grŵp yn gweithio gyda ni i wneud y mwyaf o fanteision a chyrraeddiad datblygiad Canolfan Iechyd a Lles Dyffryn Nantlle ym Mhenygroes (Canolfan Lleu). Yn ystod prosiect CTLG byddant yn cynnig gweithgareddau yn Ty'n Llan i'w defnyddwyr sy'n chwilio am gyfleoedd presgripsiynu cymdeithasol, gan baru'r gweithgareddau ag anghenion y defnyddiwr. Ar ôl y prosiect, byddant yn gallu cynnig cyfleoedd os byddwn yn parhau i'w darparu. Ac, er gwaethaf y cysylltiadau trafniadaeth gyhoeddus gwael rhwng Penygroes a Llandwrog, rydym yn trafod y posibilrwydd y bydd Ty'n Llan yn dod yn lleoliad atodol ar gyfer rhai gwasanaethau a gweithgareddau iechyd a lles. Rydym yn gweithio gyda'u Uwch Swyddog Cymunedol i drefnu hyn.

- **Biwro Gwirfoddoli Mantell Gwynedd:** yn ystod prosiect CTLG byddant yn helpu i drefnu hyfforddiant naill ai trwy gyrsiau presennol neu drwy eu rhwydwaith lleol eang, ac yn hyrwyddo cyfleoedd i wirfoddoli ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau i'w defnyddwyr ar draws Gwynedd fel cyfleoedd rhagnodi cymdeithasol. Maent wedi cytuno i weithio gyda ni i greu pecyn hyfforddi pwrpasol yn ystod camau cynnar ein prosiect. Bydd hyn yn ymateb i'n hanghenion penodol ac yn ein helpu i reoli ein gwerth cymdeithasol a mesur ei effaith, fel ei fod wedi'i wreiddio yn ein rheolaeth a'n cynllunio. Mae gennym lythyr o gefnogaeth gan eu Hwylusydd Iechyd a Lles; rydym hefyd wedi bod yn trafod yr agweddau gwirfoddoli a hyfforddi gyda Chydlynedd Canolfan Gwirfoddoli Gwynedd. Ar ôl prosiect CTLG, a gan fod Menter Ty'n Llan yn fudiad gwirfoddol a thrydydd sector yng Ngwynedd, maent yn hapus i ddarparu hyfforddiant priodol. Maent yn hapus i barhau i hyrwyddo gweithgareddau sydd â gwerth cymdeithasol yn Ty'n Llan lle maent yn cyfateb i anghenion eu defnyddwyr, ac os byddwn yn parhau i'w darparu.

Bydd rhai partneriaid yn cymryd rhan yn ystod y prosiect NLHF, ond nid o reidrwydd wedi hynny:

- **CERDD** – yn ystod prosiect CTLG byddant yn cefnogi'r gweithgareddau cerddoriaeth a chyfansoddi caneuon Cymraeg, ac maent yn hapus i archwilio prosiectau ar y cyd parhaol os bydd cyllid yn caniatáu.

- **Gwasanaeth Ieuentid Gwynedd** – yn ystod prosiect CTLG, bydd y gwasanaeth ieuentid yn cynnig cyfleoedd i'w defnyddwyr gymryd rhan mewn llawer o'r gweithgareddau. Nid yw'r gwasanaeth yn medru rhedeg clybiau ieuentid wythnosol mwyach, ac mae'n rhaid iddo weithio ar brosiectau byr 6-8 wythnos. Ar ôl prosiect CTLG, bydd yr ystafell amlbwrpas ar gael ar ôl oriau ysgol ac yn ystod gwyliau ysgol, er y bydd angen prosiect penodol arnynt wedyn i wneud defnydd o'r ystafell. Gan fod y rhagolygon ariannu ar gyfer llywodraeth leol yn tueddu i amrywio, bydd deialog barhaus yn ystod Blwyddyn 3 o'r prosiect yn hollbwysig er mwyn pennu (a) pa fuddion posibl y gall Ty'n Llan eu cynnig i'r partner hwn, a (b) beth allai Gwasanaeth Ieuentid Gwynedd fod yn gallu darparu er mwyn cefnogi gweithio ar y cyd.

- **Ysgol Llandwrog** – Yn ystod prosiect CTLG byddant yn ymwneud yn agos â nifer o'r gweithgareddau. Yn y tymor hir, bydd y stafell gymunedol lai, fydd ar wahân i'r bar a'r ardal lety, ar gael i'r ysgol i'w llogi am bris ffafriol. Oherwydd ei agosrwydd, mae'n debygol y bydd yr ysgol hefyd yn ymwneud â phrosiectau yn y dyfodol.

Rydym hefyd yn gweithio gyda phartneriaid eraill y tu allan i gwmpas y prosiect NLHF:

- **Banc Bwyd Arfon** - Byddwn yn parhau i weithio gyda'r banc bwyd i leihau gwastraff bwyd ac i helpu pobl mewn angen. Yn ystod Blwyddyn 1 o brosiect CTLG, pan fydd y dafarn yn cael ei hadeiladu, byddwn yn gweithio gydag Ysgol Llandwrog fel partner a lleoliad amgen fel y gallwn barhau i ddarparu'r cymorth hwn.

- **Cwmpas** – Rydym wedi derbyn cyngor gan gyn-Co-op Cymru ac wedi bod yn falch o gymryd rhan mewn digwyddiadau lle mae ein stori wedi helpu grwpiau tebyg i symud ymlaen gyda'u cynlluniau eu hunain.

- **Cymunedoli** – Mae'r Gymdeithas yn aelod o'r grŵp hwn a sefydlwyd i ddod â mudiadau gwirfoddol a chymunedol yng Ngwynedd ynghyd a rhannu profiad.

- **Canolfan Iaith a Threftadaeth Nant Gwrtheyrn** – bydd dysgwyr Cymraeg ar gyrsiau preswyl yn y ganolfan genedlaethol enwog hon ar Benrhyn Llŷn yn ymweld â Ty'n Llan yn achlysurol i ymarfer eu sgiliau iaith a dyfnhau eu dealltwriaeth o'r diwylliant a'r dreftadaeth leol.

- **Hunaniaith (Cyngor Gwynedd)** – Gan weithio gyda Ty'n Llan i drefnu digwyddiadau penodol i ddysgwyr, bydd dysgwyr yn ymweld â Thy'n Llan ar gyfer digwyddiadau ac yn ymarfer eu sgiliau iaith ac yn dyfnhau eu dealltwriaeth o'r diwylliant a'r dreftadaeth leol.

- **Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd** – Mae newidiadau i'r gwasanaeth yn golygu na all Ty'n Llan ddod yn fan casglu llyfrgell mwyach. Gall y gwasanaeth gydlyn gyda'r partneriaethau sy'n darparu Addysg Gymunedol, a gall helpu i sefydlu a hyrwyddo cyrsiau cymunedol megis cyrsiau ymwybyddiaeth ofalgar / digidol / crefft yn Ty'n Llan. Maent hefyd yn cynnig mynediad i wefannau Find my Past ac Ancestry am ddim yn eu lleoliadau.

- **Cynllun Cyfeillio Llandwrog** - Byddwn yn parhau i weithio gyda Phwyllgor Pentref Llandwrog i ddatblygu Cynllun Cyfeillio Covid-19 i gefnogi aelwydydd bregus. Gallai hyn gynnwys dosbarthu prydu poeth yn ystod y gaeaf a gwasanaeth gwirfoddol i ddsbarthu bwyd i'r rhai nad ydynt yn gallu gadael eu cartrefi.

- **Busnesau Lleol** – Byddant yn hyrwyddo cynigion Ty'n Llan i'w defnyddwyr a thrwy eu rhwydweithiau. Mae'n debygol y bydd rhai o'r sgysiau a gawn gyda'r busnesau lleol hyn yn arwain at bartneriaeth neu gymorth ar y cyd mewn ffyrdd eraill, a byddwn am allu adlewyrchu'r rhain yn

ein hadolygiadau o'r cynllun busnes. Mae hyn yn debygol o olygu cyd-hyrwyddo, a dod â'r busnesau hyn at ei gilydd yn Ty'n Llan ar gyfer digwyddiadau pwrpasol, megis diwrnodau gyrfaedd a digwyddiadau hyfforddi.

Bydd grwpiau eraill yn defnyddio'r ystafell amlbwrpas i'w llogi. Wrth wneud hynny byddant yn cefnogi ochr fasnachol y busnes, gan gyfrannu hefyd at incwm bwyd/diod drwy'r bar a'r bwyty. Mae'r rhain yn cynnwys grwpiau penodol a meysydd o werth cymdeithasol, gyda rhai ohonynt yn gorgyffwrdd:

- **Addysg Oedolion Cymru** – wedi cael eu gwahodd i ystyried cynnig cwrs ysgrifennu rheolaidd a chysiau celfyddydau er lles yn Nhy'n Llan, yn debyg i'r cysiau y maent yn eu cynnig yn Llanfrothen a'r Drenewydd.
- **Clwb ar ôl ysgol (Ysgol Llandwrog)** – nid yw hyn yn bosibl nes bod yr ystafell amlbwrpas ar gael.
- **Celfyddydau Anabledd Cymru** – wedi cael gwahoddiad i ystyried ymuno â grŵp ysgrifennu rheolaidd yn Ty'n Llan.
- **Theatr Bara Caws** – Yn adleoli i Ganolfan Lleu, Penygroes unwaith y bydd y gwaith adeiladu wedi'i gwblhau, ac yn awyddus i drafod trefnu digwyddiadau theatrig Cymraeg yn Ty'n Llan.
- **Rhaglenni iechyd a lles** (e.e. grwpiau cerdded, eiriolaeth, ymarfer corff) – mae angen meithrin y berthynas gyda Grŵp Cynefin a Mantell Gwynedd yn ystod y prosiect.
- **Cyfleoedd dysgu a chymdeithasol** (dosbarthiadau celf, grwpiau garddio, grwpiau cymdeithasol) - yn cael eu harwain gan ddefnyddwyr, yn yr un modd â gweithgareddau a ariennir gan y Gronfa Loteri Fawr. Gallai'r rhain gael eu harwain a'u cyflawni gan rôl swyddog treftadaeth gymunedol, wedi'i hariannu gan Fenter Ty'n Llan a'i chynnal yn yr ystafell ddigwyddiadau.
- **Grwpiau cefnogi** (e.e. grwpiau cleifion, rhieni a gofalwyr, cyfeillio, gofalwyr, cyflyrau iechyd) – dan arweiniad Menter Ty'n Llan, yn yr un modd ag y mae'r clwb cinio i rai dros 60 oed yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd. Gallai hyn gael ei gefnogi gan rôl swyddog treftadaeth gymunedol, wedi'i hariannu gan Fenter Ty'n Llan.
- **Mudiad Meithrin Cymru** – Yn awyddus i ail-ddechrau cylch Ti a Fi Llandwrog a Dinas Dinlle, ond ni fydd hyn yn bosibl hyd nes y bydd yr ystafell gymunedol lai yn barod. Daeth y grŵp i ben yn 2018 gan nad oedd unman priodol i gyfarfod.
- **Cyngor ar waith a gwirfoddoli** (e.e. prosiectau cymorth cyflogaeth lleol) – os yn llwyddiannus dylai fod gennym berthynas dda gydag ysgolion lleol a Choleg Glynllifon. Ar hyn o bryd does neb yng Ngwynedd yn darparu diwrnodau gyrfa sy'n canolbwyntio ar letygarwch, twristiaeth a

threftadaeth ac mae hwn yn fwllch sylweddol. Gallai hyn gael ei gefnogi gan rôl swyddog treftadaeth gymunedol, wedi'i hariannu gan Fenter Ty'n Llan.

4.3 Gwobrau

Mae ymdrechion Menter Ty'n Llan wedi'u cydnabod yn ffurfiol ddwywaith hyd yma:

- Gwobrau Menter Gymdeithasol Cymru 2022 – Y Wobr 'Un i'w Gwyllo' ar gyfer mentrau cymdeithasol sydd newydd eu sefydlu
- Gwobrau Menter Wledig Sefydliad Plunkett 2022 – 'Y Defnydd Gorau o Dechnoleg'

4.4 Gwella mynediad trwy dyfu'r busnes

Mae Menter Ty'n Llan bellach wedi bod yn masnachu ar ei ffurf 'Dros Dro' ers dros 18 mis ac wedi dysgu llawer iawn yn y cyfnod hwnnw. Rydan ni'n dal i ddysgu! Daeth y Gymdeithas i fodolaeth ar adeg o ansicrwydd a newid mawr yn y farchnad lafur, yn enwedig yn y diwydiant lletygarwch. Mae newidiadau yn ein staff, o ran strwythur a phersonél, wedi bod yn anochel ond mae arwyddion clir bod tîm craidd profiadol yn ei le, sy'n gallu diwallu anghenion y dyfodol. Mae darparu bwyd o fis Mehefin 2022 ymlaen wedi denu cwsmeriaid newydd ac mae bwydlenni a gwasanaethau diwygiedig wedi dechrau gwneud Ty'n Llan yn gyrchfan, nid yn unig i drigolion y pentref, ond hefyd i fwy a mwy o gwsmeriaid amrywiol o bob oed. Mae gan y dafarn bolisi sy'n gyfeillgar i blant a chŵn ac mae ei henw'n dod yn fwyfwy adnabyddus i ymwelwyr â'r ardal, ac mae eu hymateb hwythau yn hynod gadarnhaol.

Ym mis Ebrill 2023, gyda chymorth menter Menter Môn, sefydlwyd siop hunanwasanaeth, yn dibynnu ar onestrwydd ac mae honno wedi bod yn boblogaidd iawn wrth ddarparu mynediad 12 awr y dydd i ystod gynyddol o gynnyrch lleol.

Mae trosiant wedi cynyddu'n sylweddol o £14,343 y mis yn chwe mis cyntaf 2022 i £28,843 y mis yn y cyfnod cyfatebol yn 2023. Er bod colledion bach wedi'u datgan ar gyfer y cyfnod Rhagfyr 21-Mawrth 22 a'r flwyddyn ariannol Ebrill 22-Mawrth 23, mae'r Pwyllgor yn parhau i fod yn hyderus ynghylch y canlyniadau tymor hir, ond mae'n ymwybodol o bwysigrwydd hanfodol sicrhau'r cyfleusterau ychwanegol y mae'r Prosiect hwn yn anelu at eu darparu.

5. Adnewyddu ac Ailfodelu

5.1 Cyflwr Cyfredol

Cwblhawyd arolwg o gyflwr yr adeiladau ym mis Chwefror 2021 a nodwyd fod angen gwneud gwaith helaeth i ddiogelu ac adnewyddu'r adeilad presennol.

5.2 Prosiect adfer ac adnewyddu – Cymal 1

Yr uchelgais gwreiddiol oedd cwblhau adferiad llawn ac ychwanegu estyniad o fewn cwmpas un prosiect. Penodwyd y penseiri, Pegwa¹⁵, yn gynnar yn 2022 gyda hyn mewn golwg. Fodd bynnag, wrth ychwanegu'r holl welliannau ac ychwanegiadau oedd yn cael eu hystyried yn hanfodol ar gyfer llwyddiant hirdymor y prosiect (gweler isod), daeth yn glir, yn sgîl ystyriaeth fanwl o'r newidiadau sydd eu angen a'r cynnydd aruthrol mewn costau adeiladu, bod costau realistig y prosiect yn llawer uwch nag oedd wedi cael ei amcangyfrif yn wreiddiol.

Yn y cyfamser, gwnaed ceisiadau llwyddiannus am gymorth ariannol gan nifer o gyrff, ac mae'r Gymdeithas yn parhau i fod yn hynod ddiolchgar i'r rheiny. Mae'r rhestr lawn yn ymddangos ar ddiwedd y cynllun busnes hwn, ond dylid cyfeirio'n benodol at y canlynol:

Y Gronfa Treftadaeth Bensaernïol - £34,080 tuag at ffioedd proffesiynol

Derbyniwyd tri grant mawr (neu grant/benthyciad):

Y Gronfa Perchnogaeth Gymunedol (gan Adran dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau Llywodraeth y DU) - £250,000

Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol (Llywodraeth Cymru) - £250,000

Cronfa Datblygu Asedau Cymunedol (WCVA / Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop) - benthyciad di-log o £90,000, a grant o £60,000

Fel yn achos llawer o raglenni o'r fath, roedd pob un o'r rhain yn mynnu bod eu harian yn cael ei wario o fewn amserlen benodol. O ganlyniad, a gyda chytundeb y cyllidwyr, penderfynwyd rhannu'r prosiect yn ddau gymal gan ganolbwyntio yn y cymal cyntaf ar ddiogelu ac adfer strwythur yr adeilad ar gyfer y tymor hir. Roedd hyn yn cynnwys ail-doi, ail-bwyntio pob wal, diogelu ac adfer ffenestri a gwneud cymaint â phosibl o'r gwaith paratoi mewnol ar y llawr cyntaf. Cafodd y gwaith hwn ei dendro a dyfarnwyd y contract ym mis Mehefin 2022 i Recclesia Ltd o Sir y Fflint, cwmni sydd ag enw da am waith cadwraeth sensitif ar adeiladau rhestredig. Cwblhawyd y gwaith contract ym mis Mawrth 2023. Mae'r adeilad allanol yn awr wedi'i adnewyddu'n safonol ac yn addas bellach i wynebu'r tywydd tra'n disgwyl cymal nesaf ei fywyd newydd. Yn rhyfeddol, dim ond pythefnos o fasnachu a gollwyd oherwydd y gwaith, ym mis Tachwedd 2022, a hynny er mwyn caniatáu cynnal ymchwiliadau strwythurol oedd yn berthnasol i'r ail gymal.

5.3 Adfer ac adnewyddu i gwrdd ag anghenion

Yn yr ymgynghoriadau cynnar fe nodwyd y rhestr o gyfleusterau yr oedd y gymuned a rhanddeiliaid yn eu gweld yn flaenoriaeth. Mae ymgysylltu wedi hynny wedi ei gwneud yn glir bod y rhain yn dal i sefyll:

- Parhau fel tafarn draddodiadol Gymreig a Chymraeg
- Darparu bwyd a diod o Gymru, sydd o ansawdd da, yn ystod y dydd a gyda'r nos – gan ddefnyddio cynnyrch lleol

¹⁵ Penseiri Elinor Gray-Williams Architects

- Ystafell hygyrch ac amlbwrpas i gynnal digwyddiadau, dathliadau, gweithgarwch cymunedol, cyfarfodydd, cyrsiau a gofod ychwanegol ar gyfer y bwyty pan fydd angen
- Ail ofod cymunedol llai gyda mynediad annibynnol
- Amrywiaeth o weithgareddau cymunedol ar gyfer pob oedran
- Lle storio a swyddfa addas i staff
- Mynediad hygyrch a chyfleusterau toiled ychwanegol
- Siop dros dro yn gwerthu cynnyrch o Gymru ac eitemau hanfodol bob dydd
- Ystafelloedd gwely o ansawdd da
- Ardaloedd lle bydd croeso i deuluoedd
- Gardd groesawgar a defnyddiol
- Cyfleusterau parcio gwell

Ar ôl cwblhau cymal cyntaf yr adnewyddu rydym nawr yn symud ymlaen i'r ail gymal a fydd yn darparu'r cyfleusterau gwell y mae'r gymuned wedi eu nodi fel rhai angenrheidiol. Cyflwynodd y penseiri, PegWA, y dyluniadau craidd fel rhan o Gymal Un, ar ôl ymgynghori â'r gymuned. Mae Grant Datblygu gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol wedi ein galluogi i gomisiynu'r cynlluniau pensaernïol manwl a'r cynlluniau proffesiynol eraill sydd eu hangen er mwyn i ni allu costio gweddill y gwaith yn gywir. O ganlyniad, rydym wedi medru cyflwyno cais llawn i'r Gronfa yn Awst 2023 am y cyllid a fydd, ynghyd â chyllid o ffynonellau eraill, yn galluogi'r Prosiect a'i ddeilliannau i gael eu cyflawni yn ystod 2024. Disgwylir i'r penderfyniad ar y cais gael ei wneud tua diwedd Tachwedd 2023. Byddwn yn sicrhau ein bod yn mabwysiadu arferion caffael moesol ar gyfer pob gwaith y byddwn yn ei gomisiynu.

5.4 Lleihau ein Heffaith ar yr Amgylchedd

Mae Menter Ty'n Llan yn credu bod gwarchod yr amgylchedd a chymdeithas ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yn bwysig ac mae wedi ymrwymo i ddefnyddio adnoddau cynaliadwy. Caiff yr egwyddorion hyn eu hymgorffori yn ein gweithgareddau ac maent yn hanfodol i gyflawni'r weledigaeth o ddatblygu Ty'n Llan fel canolfan gymunedol, busnes cynaliadwy a chyfleuster amlbwrpas sy'n diwallu anghenion y gymuned gyfan, tra hefyd yn diogelu'r ased hanesyddol hwn.

Mae osgoi gwastraff a lleihau costau ynni hefyd yn angenrheidiol er mwyn sicrhau llwyddiant masnachol y fenter.

Byddwn yn cadw at Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy drwy wneud y canlynol:

- meddwl a chynllunio ar gyfer y dyfodol
- atal problemau cyn iddynt ddigwydd
- integreiddio ein gwasanaethau, ein sgiliau, ein cynllunio a'n cyfrifoldebau
- cynnwys ein cwsmeriaid, cydweithwyr, gwirfoddolwyr a'r gymuned yn ein penderfyniadau
- gweithio gyda sefydliadau eraill i sicrhau lles pawb

Fel rhan o'n hymrwymiad amgylcheddol, anelwn at sicrhau y bydd y gwaith o adnewyddu Ty'n Llan yn waith carbon sero net a fydd yn defnyddio methodoleg adrodd ryngwladol gydnabyddedig. Bydd deunyddiau wedi'u hadfer a'u huwchgylchu yn cael eu blaenoriaethu er mwyn cyflawni'r nod hwn, a bydd y carbon dros ben yn cael ei wrthbwysu drwy blannu coed yn lleol.

Rydym wedi gofyn am gyngor arbenigol i sicrhau ein bod yn dilyn yr arferion amgylcheddol gorau a byddwn fel rhan o'r datblygiad yn ymgorffori'r argymhellion a welir yn y tabl sy'n dilyn.

Mae gennym bolisi amgylcheddol a chod ecolegol a fydd yn cael eu dilyn a'u monitro gan y rheolwyr a gan y Bwrdd.

Ymgorffori'r Arferion Amgylcheddol Gorau wrth Ddatblygu Ty'n Llan

Nodwedd o'r adeilad		Argymhelliad
Goleuo		<ul style="list-style-type: none"> Defnyddio dim ond goleuadau LED
Rheolyddion goleuo		<ul style="list-style-type: none"> Rheolyddion goleuo awtomatig mewn ardaloedd na chânt eu defnyddio'n aml.
System wresogi		<ul style="list-style-type: none"> Ystyried system wresogi Pwmp Gwres
Rheolyddion gwresogi		<ul style="list-style-type: none"> Falfiau Rheiddiaduron Thermostatig (TRVs) ar bob rheiddiadur. Rhannu'r adeilad yn barthau. Thermostat digidol/clyfar. Rheolyddion i wneud yn iawn am y tywydd.
Gwresogi - Nodweddion ychwanegol		<ul style="list-style-type: none"> Inswleiddio'r holl bibellau - hyd yn oed mewn mannau wedi eu gwresogi.
Ffabrigau Adeiladu	Waliau	<ul style="list-style-type: none"> Rhagori ar reoliadau presennol inswleiddio i ddiogelu'r adeilad at y dyfodol - inswleiddio pob wal yn allanol neu'n fewnol
	To	<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod o leiaf 300mm o inswleiddio yn yr atig. Yn ddelfrydol 400mm.
	Ffenestri a Drysau	<ul style="list-style-type: none"> Gosod ffenestri gwydr dwbl neu ffenestri eilaidd pan fo'n rhaid defnyddio ffenestri gwydr sengl. Atal drafftiau trwy bob ffenestr, drysau allanol a drysau sy'n arwain at fannau heb eu gwresogi.
Y seler ac oeri'r seler		<ul style="list-style-type: none"> Gweithredu system oeri amgylchol Sicrhau bod drysau a waliau'r seler wedi'u hinswleiddio'n ddigonol ac atal drafftiau.
Arlwyo ac oergelloedd		<ul style="list-style-type: none"> Hobiau anwythiad ac offer arlwyo gradd A. Defnyddio oergelloedd gradd A gydag amseryddion er mwyn defnyddio llai o ynni.
Offer trydanol		<ul style="list-style-type: none"> Defnyddio awyru adfer gwres i sicrhau bod lleithder yn cael ei reoli Gosod rheolyddion arbed pŵer a phaneli un clic

Offer bar	<ul style="list-style-type: none"> · Gosod amseryddion 7 diwrnod neu reolyddion 'clyfar' ar oeryddion diodydd drafft. · Gosod oergelloedd diodydd gydag amseryddion 7 diwrnod.
Ynni adnewyddadwy	<ul style="list-style-type: none"> · System PV solar
Effeithlonrwydd Dŵr	<ul style="list-style-type: none"> · Toiledau fflysio deuol gyda seston bach · Rheolyddion synhwyro symudiad yn y troethfeydd, rhai di-ddŵr os oes modd · Tapiâu a phen-cawodydd awyru (anysgytwol) · Casglu dŵr glaw

6. Costau ac Amserlenni'r Prosiect

6.1 Costau a Chyllido Cyffredinol y Prosiect

Mae'r costau sy'n cael eu disgrifio yn yr adran hon yn cyfeirio at Ail Gymal Adnewyddu ac Adeiladu'r Prosiect a adwaenwyd yn wreiddiol fel 'Achub Ty'n Llan'. Cânt eu rhannu rhwng costau Cyfalaf, yn ôl amcangyfrif y tîm o gynghorwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda'n penseiri Partneriaeth Elinor Gray-Williams Associates (PegwA) a chostau Dehongli a Gweithgarwch, yn unol â chynghor Minerva Heritage. Yn y ddwy adran, bu ymgynghori a thrafod dwys gydag aelodau'r gymuned a rhanddeiliaid eraill yn ogystal â Phwyllgor Rheoli Menter Ty'n Llan, i sicrhau bod y cynlluniau yn eu ffurf derfynol yn adlewyrchu dymuniadau a blaenoriaethau'r gymuned yn gywir.

Mae amcangyfrifon blaenorol o gostau adnewyddu ac uwchraddio wedi cael eu hadolygu i adlewyrchu chwyddiant amlwg mewn costau deunyddiau crai ac adeiladu, ac hefyd oherwydd gohirio rhai costau o Gymal 1 i Gymal 2. Hefyd nodwyd costau annisgwyl yn ymwneud â chadwraeth ystlumod, er enghraifft. Amcangyfrifir mai cyfanswm costau'r prosiect sydd dan sylw yn awr, gan gynnwys cronfeydd wrth gefn, yw £2,750,196. Mae'r Model Ariannu a Gwariant ym mharagraff 6.2.

6.2 Model Cyllido a Gwariant

MODEL CYLLIDO A GWARIANT

Gwariant	£
Ffioedd proffesiynol par. adnewyddu ac estyniad	95,000
Gwaith ymsefydlu	200,000
Gwaith trwsio a chadwraeth	1,778,356
Wrth gefn	211,000
Lwfans chwyddiant	75,024
Cyfanswm Gwariant Cyfalaf	2,335,380
